# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 13 IONAWR 2020 am 9:30 y. b. | | MONDAY, 13 JANUARY, 2020 at 9:30 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrnyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforoaethol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2019.

3 **GOSOD CYLLIDEB 2020/21 - CYNIGION CYCHWYNNOL AR GYFER Y GYLLIDEB REFENIW** (Tudalennau 5 - 24)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

4 **GOSOD CYLLIDEB 2020/21 - CYNIGION CYCHWYNNOL AR GYFER Y GYLLIDEB GYFALAF** (Tudalennau 25 - 42)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

5 **PANEL SGRIWTINI CYLLID - ADRODDIAD CYNNYDD** (Tudalennau 43 - 50)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

6 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 51 - 56)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Alun Roberts, J. Arwel Roberts.<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chymorth Cymunedol)<br>Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)<br>Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd)<br>Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr Lewis Davies, Richard O. Jones, Bryan Owen, Mr Keith Roberts, Mrs Anest Frazer (Aelodau Cyfetholedig), Cynghorwyr Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

DRAFT

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2019 ac fe'u cadarnhawyd fel cofnod cywir.

Materion yn codi –

Mewn perthynas â'r ail bwynt bwled o dan eitem 3, fe gadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol hysbysu'r cynghorau tref a chymuned

am bob cais cynllunio yn eu hardal a bod system weinyddol newydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei haddasu er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd ac mae swyddogion cynllunio wedi eu hysbysu o'r angen i gydymffurfio â'r gofyniad hwn. Mae cynghorau tref a chymuned bellach yn gallu tracio cynnydd ceisiadau yn ôl ward ar wefan y Cyngor ac mae cynnig sefydlog i gynghorau tref a chymuned dderbyn hyfforddiant a/neu arweiniad i glercod y cyngor neu aelodau petaent yn dymuno.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am y diweddariad a gofynnodd am i'r wybodaeth uchod gael ei chyhoeddi.

**3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 2 2019/20**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn cynnwys ail Gerdyn Sgorio blwyddyn ariannol 2019/20 yn portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar ddiwedd Chwarter 2, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor ac ar gyfer ei graffu.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol, ers i adroddiad Chwarter 1 ar y Cerdyn Sgorio gael ei drafod gan y Pwyllgor ym mis Medi, 2019 fod Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) pellach wedi eu cyhoeddi gan Data Cymru yn benodol mewn perthynas â Rheoli Gwastraff a'i fod yn falch o allu cyhoeddi unwaith eto bod gan yr Awdurdod yn Ynys Môn un o'r cyfraddau ailgylchu gorau yng Nghymru, gan ei roi ymysg y gorau yn y byd o ran gwastraff tŷ sy'n cael ei ailgylchu. Dywedodd yr Aelod Portffolio ei bod hefyd yn galonogol gallu adrodd bod y mwyafrif (71%) o ddangosyddion iechyd corfforaethol sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn y targedau (Gwyrdd neu Felyn RAG) fel oedd yr achos ar ddiwedd Chwarter 1. Mae rhai pwyntiau i'w nodi yn cynnwys –

- Presenoldeb yn y gwaith ar ddiwedd Ch2 lle mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 3.96 diwrnod yn cael ei golli fesul gweithiwr (cyfwerth ag amser llawn) yn y cyfnod yn erbyn targed o 4.48 diwrnod. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r lefelau a welwyd yn ystod Ch2 2018/19 a Ch2 2017/18, sef y flwyddyn y gwelwyd y perfformiad gorau yn y maes hwn ers i ni ddechrau monitro yn y fath fodd.

- Mae'r strategaeth ddigidol yn parhau i wneud cynnydd; mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion o dan yr is-bennawd 'newid i wasanaeth digidol' yn gweld tuedd ar i fyny o'i gymharu â Ch2 yn 2018/19 lle mae 83% o'r dangosyddion yn dangos cynnydd. Mae nifer y defnyddwyr cofrestredig wedi mwy na dyblu o 5,000 ar ddiwedd Ch2 2018/19 i 11,000 sy'n ddatblygiad positif gan fod astudiaethau wedi dangos fod trafodion digidol yn fwy cost effeithiol na chyswllt wyneb yn wyneb.

- Mae mwyafrif (75%) y dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn targedau o dan yr is-bennawd siartr gwasanaeth cwsmeriaid. Yr unig ddangosydd sy'n Goch yn erbyn targed yw Dangosydd 04b – canran y cwynion ysgrifenedig yr ymatebwyd iddynt gan y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn 15 diwrnod.
- Ar sail y sefyllfa ariannol ar ddiwedd yr ail chwarter, bydd y Cyngor yn gorwario £1.410 miliwn ar ei gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth, 2020 o a hynny'n bennaf oherwydd pwysau o ran costau a chynnydd mewn galw yn y Gwasanaethau Oedolion. Mae'r cyhoeddiad hwyr am setliad y gyllideb amodol ar gyfer awdurdodau lleol am 2020/21 yn gwneud hi'n anoddach cynllunio ymlaen llaw. Bydd adroddiadau cyllideb manylach ar berfformiad rheolaeth ariannol Chwarter 2 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 25 Tachwedd, 2019.



DRAFT

- Mae mwyafrif (85%) y dangosyddion perfformiad yn parhau i berfformio yn uwch na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau gyda dim ond 5 o ddangosyddion yn tanberfformio ar draws y tri amcan strategol (yn Tai, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cynllunio).

  Daeth yr Aelod Portffolio i'r casgliad fod y data yn dynodi, o ran perfformiad cyffredinol, bod Chwarter 2 2019/20 yn cynrychioli pwynt uchel ers i'r Cyngor ddechrau adolygu a monitro perfformiad ei wasanaethau mewn modd systematig. Mae'r wybodaeth am berfformiad ar ddiwedd Chwarter 2 yn galonogol ac yn dangos bod y Cyngor ar y trywydd cywir o ran gwella perfformiad a chyflawni ei amcanion.

Wrth drafod yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor am ddadansoddiad ac esboniadau pellach gan Swyddogion mewn perthynas â pherfformiad yn y Gwasanaethau Tai, Plant a Chynllunio yn y meysydd hynny nad oeddent yn cwrdd â'r targed. Dywedwyd wrth y Pwyllgor –

- Mewn perthynas â *Dangosydd 17 - Gwasanaethau Landlordiaid: cyfartaledd nifer y dyddiau i wneud gwaith trwsio a oedd yn* GOCH gyda pherfformiad o 15.14 diwrnod yn erbyn targed o 12 diwrnod. Mae newid yn y Polisi Trwsio a Chynnal a Chadw yn Hydref 2018 a welodd gyflwyno categoreiddiad amser newydd ar gyfer cwblhau gorchmynion gwaith, yn ffactor yn y tanberfformiad. Wrth osod y targed o 12 diwrnod ar gyfer 2019/20, nid oedd gan y Gwasanaeth gyfnod llawn o 12 mis ar gael i fedru cymharu perfformiad blaenorol yn ei erbyn, gallai'r categoreiddiad newydd a'r targedau a osodwyd fod yn rhy isel o ran cyfartaledd nifer y dyddiau. Fodd bynnag, mae 93% o'r archebion gwaith wedi eu cwblhau ar amser. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Tai yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn er mwyn ceisio gwella perfformiad. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn ceisio gwella effeithlonrwydd sy'n golygu grwpio gwaith mor agos â phosibl i'r dyddiad targed er mwyn sicrhau dyddiadur llawn o ran y gwaith i'w gwblhau gan felly leihau'r angen i deithio o un lle i'r llall.
- O ran *Dangosydd 36 – Gwasanaethau Landlordiaid: canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo yn wag* a oedd yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 1.57% wedi'i golli yn erbyn targed o 1.15%, cafodd perfformiad gwael Dangosydd 35 ar y cerdyn sgorio yn Ch1 (cyfartaledd nifer y dyddiau i osod unedau llety y mae modd eu gosod) effaith uniongyrchol ar Ddangosydd 36 ac er y gwelliant wrth osod unedau yn Ch2, nid yw wedi bob yn bosibl adfer cymaint ag a obeithiwyd. Mae nifer fechan o eiddo hefyd wedi eu cadw'n wag am gyfnod hirach o amser na'r arfer er mwyn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn rhan o gynllun Cartrefi Clyd y Gwasanaethau Plant a chafodd rhai eiddo a oedd angen eu haddasu cyn eu hail-osod eu cadw'n ôl er mwyn cael cyfarwyddiadau gan y Therapydd Galwedigaethol. Yn ogystal, mae gwaith adnewyddu sylweddol wedi'i wneud ar rai eiddo a oedd yn cael eu nodi fel methiannau derbyniol o dan Safonau Ansawdd Tai Cymru (WHQS) gan nad oedd y tenantiaid blaenorol eisiau i'r gwelliannau gael eu gwneud i'w heiddo. Mae'r holl ffactorau hyn wedi dylanwadu ar y dangosydd perfformiad. Bydd y broses symlach a gafodd ei hadnabod yn Ch1 yn parhau i gael ei gweithredu.
- O ran *Dangosydd 27 – canran yr atgyfeiriadau plant sy'n ail-atgyfeiriadau o fewn 12 mis a oedd yn* AMBR ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 14.29% yn erbyn targed o 10%, mae adolygiad o'r ffeiliau achos ail-atgyfeirio wedi darganfod eu bod i gyd wedi eu hail-atgyfeirio'n briodol i'r gwasanaeth gyda'r amcan o osgoi ail-atgyfeiriadau dro ar ôl tro. Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i graffu ar yr holl agweddau perfformiad yn ofalus.
- O ran *Dangosydd 53 – canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd* a oedd yn AMBR gyda pherfformiad o 33% yn erbyn targed o 65%, mae'r dangosydd yn delio â niferoedd bach iawn ac ar ddiwedd y chwarter mae'r tanberfformiad yn ganlyniad i 2

allan o'r 3 apêl yn cael eu cadarnhau ar ôl i'r dehongliad o'r polisïau newydd gael ei herio. Bydd y dehongliad o'r polisïau newydd yn gwella.

- Mewn perthynas â *Dangosydd 43 – canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod a oedd yn* AMBR gyda perfformiad o 69% yn erbyn targed o 80%, mae'r Gwasanaeth wedi elwa o ganlyniad i gynnydd mewn capasiti ac arbenigedd gyda phenodiad Uwch Reolwr; yn ogystal, mae'r swydd Cynorthwy-ydd Gorfodaeth hefyd yn cael ei hysbysebu. Tra bo'r perfformiad dros Chwarter 1 a Chwarter 2 yn 69%, ar gyfer Ch2 yn unig mae'r perfformiad yn 87% sydd yn uwch na'r targed ac sy'n welliant sylweddol. Er y rhagwelir y bydd y gwelliant yn parhau i'r flwyddyn nesaf, mae'n werth nodi y gall rhai achosion fod yn gymhleth ac y gallant gymryd amser i'w datrys.
- Mewn perthynas â *chwynion*, rhoddwyd sicrwydd bod y 4 ymateb yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn hwyr a heb gytundeb bellach wedi eu datrys. O ran gwella'r broses gwynion, mae'r Swyddog Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael mwy o ryddid i ddilyn ymatebion i fyny ac i sicrhau bod ymatebion ysgrifenedig yn cael eu hanfon allan mewn modd amserol neu, lle mae angen, bod estyniad amser yn cael ei gytuno arno. Gall ymateb i gwynion yn aml iawn gynnwys sgyrsiau â nifer o swyddogion/gweithwyr proffesiynol a gall y broses hon gymryd amser ond mae angen sicrhau bod yr ymatebion hyn yn fanwl gywir ac yn ymdrin â'r materion a godwyd.
- Mewn perthynas â *materion eraill* fe ddarparwyd sicrwydd bod perfformiad yn y Gwasanaethau Oedolion yn dda yn enwedig o fewn y Gwasanaethau Gofalwyr a Diogelu; bydd y Gwasanaethau yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi a hwyluso rhyddhad amserol unigolion o'r ysbyty lle mae perfformiad wedi gwella; mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweithio i gryfhau capasiti ac adolygu'r gwaith o farchnata gwasanaethau ail-alluogi.
- O ran y pwysau cyllidebol o fewn y Gwasanaethau Oedolion, nododd y Pwyllgor bod y Panel Sgriwtini Cyllid wedi derbyn cyflwyniad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o'i gyfarfodydd diweddar. Roedd y Pwyllgor yn hapus i barhau i ddibynnu ar y Panel Sgriwtini Cyllid i barhau i graffu ar berfformiad ariannol yn y maes hwn.

**Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r esboniadau a ddarparwyd gan swyddogion yn y cyfarfod i'r pwyntiau a godwyd, penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai dderbyn y mesurau lliniaru fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad mewn perthynas ag –**

- **agweddau perfformiad yn y Gwasanaethau Tai, Plant a Chynllunio;**
- **sgriwtini parhaus o berfformiad ariannol gyda phwyslais a chefnogaeth i'r gwasanaethau hynny sydd o dan bwysau**

**Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**



DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **13 Ionawr, 2020** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2020/21 (Refeniw)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer 2020/21** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio :** | **Cyng Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Adnoddau / Swyddog Adain 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Ar hyn o bryd yn y broses gosod cyllideb, gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ynghylch cynigion cychwynnol y Cyngor ar gyfer cyllideb refeniw 2020/21 (gan ddefnyddio'r Cwestiynau Allweddol ym mharagraff 4 isod) a chan gymryd i ystyriaeth sylwadau a wnaed gan y Panel Sgriwtini Cyllid. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt: |

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol 2020/21:<br><br>I. Mae'r setliad ariannol cychwynnol sy'n well na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau'r angen i weithredu arbedion effeithlonrwydd. Pa risgiau sy'n wynebu'r Cyngor os bydd yn gohirio gweithredu'r cynigion effeithlonrwydd tan 2021/22?<br>II. Sut dylai'r Pwyllgor Gwaith reoli'r pwysau sylfaenol ar gyllidebau yn y gwasanaethau hynny sy'n cael eu harwain gan y galw (gwasanaethau cymdeithasol ac addysg)?<br>III. Yn seiliedig ar waith y pwyllgorau sgriwtini yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen o bosibl mynd i'r afael ag unrhyw bwysau neu flaenoriaeth gwasanaeth eraill (yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth addysg) yng nghyllideb refeniw 2020/21?<br>IV. Beth ddylai lefel cynnydd y Dreth Gyngor fod ar gyfer 2020/21 o gofio'r materion a godwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) yn ei adroddiad, yn enwedig y bwlch cyllido a'r pwysau cyllidebol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu dros y 3 blynedd nesaf?<br>V. Sut mae cynigion cyllidebol 2020/21 yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid yn y tymor canol a chydbwyso blaenoriaethau tymor byr ar yr un pryd? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn. Mae ein dull o graffu ariannol yn dod i'r amlwg fel model o arfer dda.

1.2 Bydd aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hanfodol i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a bod goblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol - o ran y gwasanaethau sy'n cael eu derbyn gan ein dinasyddion a hefyd lefel y Dreth Gyngor neu'r ffioedd a'r taliadau a godir[1]. Wrth iddi ddod yn fwyfwy anodd dod o hyd i'r lefelau angenrheidiol o arbedion trwy arbedion effeithlonrwydd, bydd angen i'r Cyngor roi ystyriaeth fanwl i'r holl opsiynau posib. Yn anochel, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ofyn cwestiynau heriol ynghylch pa

[1] Disgwyliadau Uwch – Craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Canllaw i awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus, Mehefin 2014)

wasanaethau i'w cynnig i'r dyfodol ac i ba raddau y mae'r dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol. Ystyriaeth arall hefyd yw'r ffordd orau o reoli disgwyliadau pobl leol wrth wneud y newidiadau angenrheidiol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen rhoi sicrwydd i'r Aelodau felly bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sy'n lleihau, yn enwedig adnoddau cyllidol.

**1.3** Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynnol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hwy y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol) ac amcanion a blaenoriaethau tymor hir y Cyngor (fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor).

**2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2020/21**

1. Ynghlwm mae adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 ar y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2020/21 **(ATODIAD 1)**. Mae'r papur yn cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith
- Y setliad cychwynnol ar gyfer Llywodraeth Leol (Llywodraeth Cymru)
- Y sefyllfa gychwynnol ar gyfer cyllideb 2020/21
- Y Dreth Gyngor
- Cynigion ar gyfer arbedion
- Pwysau ar y gyllideb
- Risgiau
- Effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2020/21**

3.1 Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen i'r Aelodau fod yn sicr bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sy'n lleihau, yn enwedig cyllid:

*"… Mae pwysigrwydd craffu effeithiol yn cynyddu wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang, tra'n ceisio'n barhaus i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau, yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau'n dryloyw ac yn unol ag anghenion y gymuned leol… ..[2] "*

Dylai sut i ychwanegu gwerth ym mhob cam o'r broses ariannol fod y cwestiwn allweddol o safbwynt sgriwtini ariannol. Mae'r **broses gosod cyllideb** yn un o'r camau allweddol hynny.

3.2 Mae craffu ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau craffu effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

[2] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth Wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy’n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo’r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4. PANEL SGRIWTINI CYLLID**

4.1 Mae Panel Sgriwtini Cyllid wedi'i sefydlu i sicrhau'r canlyniadau allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion cyllid sy'n canolbwyntio ar ffurfio grwpiau llai fel y gall Aelodau chwarae mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd yn y pwnc ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm.
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.2 Mae aelodau o'r ddau bwyllgor sgriwtini yn eistedd ar y Panel Sgriwtini Cyllid:

- **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** - Cyng Aled Morris Jones, Dylan Rees ac Alun Roberts
- **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** - Cyng Dafydd Roberts, John Griffith a Glyn Haynes.

4.3 Rhoddodd y Panel ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol cychwynnol yn ei gyfarfod diwethaf (ar 9 Ionawr, 2020). Bydd crynodeb o drafodaethau’r Panel yn cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cyng Dafydd Roberts, sef Cadeirydd y Panel.

**5. Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI Â’R CYHOEDD**

5.1 Bydd yr ymarfer ymgynghori yn adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o dan gyfarwyddyd y Cyd-Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori a sefydlwyd gyda phartneriaid yn y 3ydd Sector.

5.2 I’r perwyl hynny a chan fod eleni yn flwyddyn unigryw o ran amseriad cyhoeddi’r Setliad Cychwynnol, bydd y broses ymgynghori yn ymgymryd â’r camau canlynol:

i. Adroddiad cyllidol i bwrpas sylwadau ar wefan y Cyngor
ii. Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned gan ychwanegu gwahoddiad i bartneriaid
iii. Fforwm Plant a Phobl Ifanc
iv. Fforwm Cyllid Ysgolion

Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn rhedeg o 14 Ionawr tan 7 Chwefror, 2020.

**6. YMGYSYLLTU Â DINASYDDION – Y STRATEGAETH GYLLIDEBOL ARFAETHEDIG**

6.1 Byddwn yn parhau i gymryd camau i gryfhau cysylltiadau rhwng sgriwtini gan yr Aelodau Etholedig a sgriwtini gan ddinasyddion, a hynny fel ffordd o alluogi'r cyhoedd i gymryd rhan mewn trafodaeth ddemocrataidd ynghylch darparu gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd ac i’r dyfodol[3]. Y canlyniad yr ydym yn gobeithio ei sicrhau yn ystod y broses gosod cyllideb yw bod Sgriwtini yn creu'r amodau ar gyfer clywed lleisiau pobl leol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a llunio polisïau. O safbwynt cenedlaethol, ystyrir bod y gwaith hwn o ymgysylltu â dinasyddion yn arfer dda ac yn thema i'w dilyn i fyny gan Swyddfa Archwilio Cymru trwy ei rhaglen archwilio.

[3] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014

Wrth symud ymlaen, bydd angen ymgorffori a gweithredu camau ar gyfer ymgysylltiad dinasyddion yn ein trefniadau sgriwtini lleol a rhoi'r fath drefniadau ar waith hefyd mewn perthynas â phynciau eraill sydd ym mlaen raglen waith ein pwyllgorau sgriwtini.

**7. MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

7.1 Bydd proses gosod cyllideb 2020/21 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb ddisymud ddrafft ac unrhyw gynigion am arbedion effeithlonrwydd. Mae'r gyfres o weithdai cyllidebol a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref, 2019 wedi sicrhau bod Aelodau wedi gallu rhoi ystyriaeth fanwl i bob cynnig cyllidebol unigol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft cychwynnol. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[4] ar gynigion cychwynnol y Cyngor ar gyfer cyllideb refeniw 2020/21 (gan ddefnyddio'r Cwestiynau Sgriwtini Allweddol ym mharagraff 4 uchod).

7.2 Yng ngoleuni'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2020/21 hyd yma, cynigir y dylai'r Pwyllgor:

i. Ystyried y cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer 2020/21
ii. Archwilio effeithiau tebygol y cynigion cychwynnol ar ddinasyddion
iii. Dod i farn am lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21.

| 6 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses ac wrth baratoi ar gyfer ystyriaeth o'r cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb 2020/21. |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2020/21, sy'n cynnwys ystyried y cynigion cyllideb cychwynnol |

| 8 – Atodiadau: |
|---|
| **ATODIAD 1:** adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2020/21 |
| **9 – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad os gwelwch yn dda am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Dyddiad: 23/12/19**

[4] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 13 Ionawr, 2020

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **13 IONAWR 2020** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2020/21** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 10 Mawrth 2020. Fodd bynnag, argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith, am rŵan, yn cymeradwyo'r canlynol:-

- **(i)** Cymeradwyo'r addasiadau i'r Gyllideb sydd wedi eu cynnwys yn y Gyllideb Ddisymud fel y nodir ym Mharagraffau 3 i 7 o'r adroddiad yn Atodiad 1;
- **(ii)** Cymeradwyo'r gyllideb ddisymud o £142.203m ar gyfer 2020/21 ac y dylai hyn fod yn sail ar gyfer cyllideb refeniw 2020/21;
- **(iii)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniad ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus;
- **(iv)** Wedi caniatáu ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor a'r arbedion fydd yn cael eu gweithredu, dylai'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad ar sut i ddefnyddio unrhyw arian dros ben (para 10.5), petai rhywfaint ar gael;
- **(v)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn gofyn barn y cyhoedd ar y strategaeth gyllideb arfaethedig.

Mae'r adroddiad manwl ar y gwaith o baratoi'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2020/21, y setliad dros dro a chyllido'r bwlch yn y gyllideb ynghlwm yn Atodiadau 1 – 4.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae hwn yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae sylwadau'r UDA wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | |
| 7 | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau**

- Atodiad 1 – Adroddiad ar y Gyllideb Refeniw Ddrafft ar gyfer 2020/21
- Atodiad 2 – Dadansoddiad o Symudiadau o'r Gyllideb Refeniw Derfynol ar gyfer 2019/20 i Gyllideb Ddisymud 2020/21
- Atodiad 3 – Cyllideb Ddisymud 2020/21 yn ôl Gwasanaeth
- Atodiad 4 – Arbedion Posib yn y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Ariannol Tymor Canol 2020/21 – 2022/23 – Gweler Rhaglen Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith, 16 Medi 2019 – Eitem 14

**ATODIAD 1**

**CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2020/21**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad canlynol yn nodi cyllideb refeniw dros dro y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2020/21. Caiff y gyllideb ei pharatoi yn seiliedig ar dybiaethau a nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2019, y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 16 Rhagfyr 2019, a'r arbedion refeniw arfaethedig a nodwyd gan y gwasanaethau unigol ac a drafodwyd yn y gweithdai amrywiol a gynhaliwyd yn ystod yr haf a'r hydref.

**1.2.** Yna, bydd y gyllideb dros dro a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn destun proses ymgynghori cyhoeddus ffurfiol a fydd yn rhedeg o 14 Ionawr 2020 i 7 Chwefror 2020.

**1.3.** Ar ôl derbyn ffigyrau'r setliad terfynol ar 25 Chwefror 2020, bydd y gyllideb terfynol arfaethedig yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Sgriwtini ar 27 Chwefror 2020, bydd yn cael ei argymell ar gyfer ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020 a bydd y gyllideb derfynol ar gyfer 2020/21 yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2020.

## 2. PRIF DYBIAETHAU YN CODI O'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL

**2.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn nodi nifer o dybiaethau ac mae'r rhain wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth weithio allan y gyllideb ddisymud ar gyfer 2020/21. Mae'r gyllideb ddisymud yn gyllideb sy'n darparu adnoddau i weithredu gwasanaethau ar lefel 2019/20 ond wedi ei diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau y gwyddys amdanynt ac sydd y tu allan i reolaeth y gwasanaethau (newidiadau ymrwymedig) ac i adlewyrchu'r costau yn 2020/21.

**2.2.** Mae'r tybiaethau hyn wedi cael eu ffactora i mewn i'r gyllideb ddisymud ynghyd â newidiadau manylach (newidiadau ymrwymedig) sy'n caniatáu ar gyfer cynnydd y gwyddys amdano mewn costau e.e. ymrwymiadau contractyddol a mân gywiriadau i'r gyllideb. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol, newidiadau y gwyddys amdanynt o ran cyllid grant a mân cywiriadau i'r gyllideb y tybir eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cyllideb y Cyngor yn adlewyrchu'n gywir y costau y bydd yn ei wynebu yn 2020/21.

## 3. NEWIDIADAU YMRWYMEDIG

**3.1.** Newidiadau ymrwymedig yw'r diwygiadau sy'n cael eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio'r gyllideb ddisymud ac maent yn adlewyrchu cynnydd neu ostyngiad mewn costau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor neu'r gwasanaeth unigol. Gall y newidiadau hyn gynnwys eitemau o gyllid unwaith ac am byth sydd eu hangen neu sy'n syrthio allan o'r gyllideb, costau sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol, newidiadau mewn costau sy'n codi o ganlyniad i ymarferiad tendro, costau cyllido cyfalaf ac ati. Mae cyfanswm yr addasiadau a wnaed i'r gyllideb yn £1,667k, a cheir manylion am y prif newidiadau yn y paragraffau isod.

### 3.2. Cyllido Cyfalaf

Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn cynnwys 3 elfen:-

- darpariaeth refeniw isaf (MRP), sef swm a godir ar y gyllideb refeniw bob blwyddyn ac sy'n sicrhau bod gan y Cyngor arian digonol i ad-dalu benthyciadau allanol wrth iddynt ddod yn daladwy;
- llog allanol, sef swm y llog sy'n ddyledus bob blwyddyn ar fenthyciadau allanol y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i gyllido gwariant cyfalaf;
- llog a dderbyniwyd, sef y swm y mae'r Cyngor yn ei gynhyrchu mewn llog drwy fuddsoddi arian dros ben yn unol â strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn ddibynnol ar werth benthyciadau allanol a chyflymder y rhaglen gyfalaf. Yn ystod 2019/20, gohiriwyd y rhaglen moderneiddio ysgolion ac mae hyn wedi cael effaith ar lefel y benthyciadau newydd y mae'r Cyngor wedi eu cymryd yn 2019/20. O ganlyniad, mae'r MRP a'r costau llog a ragwelir yn is yn 2020/21 nag yn 2019/20 ac mae'n caniatáu gostyngiad o £92k yn y gyllideb. Yn ogystal, mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog a gwelliant ym mherfformiad buddsoddiadau yn caniatáu cynnydd o £21k yn y gyllideb ar gyfer llog a dderbynnir.

### 3.3. Niferoedd Disgyblion

Bob blwyddyn, cymerir effaith y newid mewn niferoedd disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd i ystyriaeth fel rhan o'r broses o osod y gyllideb. Yn achos 2020/21, mae hyn wedi arwain at gynnydd o £146k yn y sector uwchradd ond gostyngiad o £77k yn y sector cynradd.

Hyd at 2018/19, roedd Ysgol Arbennig y Cyngor (Canolfan Addysg y Bont) yn cyllido 85 o ddisgyblion. Fel rhan o gyllideb 2018/19, cafodd swm o £78k ei ychwanegu er mwyn cyllido 5 o ddisgyblion ychwanegol. Ers 2019/20, cafodd y gyllideb ei newid i adlewyrchu'r newid mewn niferoedd disgyblion. Roedd y CATC yn tybio cynnydd o thua 15 o ddisgyblion rhwng Medi 2018 a Medi 2019, ond mewn gwirionedd, dim ond, 1 disgybl ychwanegol a gafwyd. Ychwanegwyd £13k i'r gyllideb i adlewyrchu'r newid mewn niferoedd disgyblion.

### 3.4. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Hyd at 2013/14, roedd trethdalwyr cymwys yn derbyn gostyngiad yn eu biliau Treth Gyngor drwy'r system fudd-daliadau ar ffurf Budd-dal Treth Gyngor, a gyllidwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn 2013/14, disodlwyd y Budd-dal Treth Gyngor gan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gyda'r cyllid ar gyfer y cynllun yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw. Ar y cychwyn, roedd y cynllun yn cael ei gyllido'n llawn ond, gan fod lefel y Dreth Gyngor wedi codi a nifer yr hawlwyr wedi newid ers 2013/14, bu'n rhaid i'r Cyngor ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â chost y cynllun (yn ychwanegol at y swm a ddarperir yn y Grant Cymorth Refeniw).

Ar gyfer 2019/20, cafodd y gofyniad cyllidebol ei ailasesu gan gymryd i ystyriaeth lefel bresennol y gwariant, tueddiadau o ran y llwyth achosion a chynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20. Arweiniodd hyn at ostyngiad o £360k yn y gyllideb, sy'n dod â chyfanswm y gyllideb gyffredinol i £5.389m.

Yn ystod 2019/20, bu cynnydd yn y llwyth achosion, o bosib am fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r cynllun a'r cynnydd yn y cymorth cyllidebol y mae'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn ei dderbyn, gan olygu eu bod yn fwy ymwybodol y gallent fod â hawl i gael cymorth i dalu eu Treth Gyngor. Y rhagolwg presennol yw y bydd gwariant £341k yn uwch na'r gyllideb ac o ganlyniad ychwanegwyd y swm hwn i'r gyllideb ddisymud ynghyd â chynnydd o £286k i adlewyrchu'r cynnydd posib yn y Dreth Gyngor (ar sail cynnydd o 5%). Daw hyn â'r gyllideb ddisymud gyffredinol i £6.016m, er y bydd y gyllideb hon yn cael ei hadolygu ymhellach i gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau pellach i'r llwyth achosion a'r cynnydd terfynol yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21.

### 3.5. Ardoll Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r Gwasanaeth Tân yn codi ardoll bob blwyddyn sy'n cael ei ddyrannu ar draws y chwe Awdurdod yng Ngogledd Cymru yn seiliedig ar nifer y boblogaeth a fydd yn amrywio bob blwyddyn rhwng y 6 awdurdod. Yn 2020/21, caniatawyd ar gyfer cynnydd o 2% yn yr ardoll, sy'n arwain at gynnydd o £71k yn y gyllideb ac yn golygu bod cyfanswm y gyllideb ddisymud yn £3.596m. Bydd y gyllideb hon yn cael ei haddasu ar ôl derbyn y cais terfynol am ardoll gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

### 3.6. Pensiynau Athrawon

Cynhaliwyd ail-brisiad pum mlynedd Cronfa Bensiynau'r Athrawon yn 2019, a phennwyd cyfradd cyfraniad newydd y cyflogwr o 23.6% ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 ymlaen, o gymharu â'r gyfradd flaenorol o 16.48%. Cyflwynwyd y gyfradd newydd ar 1 Medi 2019 ac ychwanegwyd £900k i gyllideb 2019/20 i adlewyrchu talu cyfraniadau uwch am 7 mis o'r flwyddyn ariannol. Bydd angen ychwanegu £564k i adlewyrchu effaith y newid yng nghyfradd y cyfraniadau dros flwyddyn gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu £0.87m i'r setliad i gynorthwyo i gyllido'r gost ychwanegol hon. Dyma oedd gwerth y grant a dderbyniwyd yn 2019/20, ond nid yw'n ddigon i wneud yn iawn am y gost ychwanegol dros flwyddyn ariannol gyflawn.

### 3.7. Incwm Parcio

Bydd y Cyngor yn colli dau faes parcio yn 2020/21: Maes Parcio Bysiau Biwmares sydd yn trosglwyddo i Gyngor Tref Biwmares fel rhan o gytundeb i drosglwyddo'r Carchar a'r Llys, a Maes Parcio Coed Cyrnol ym Mhorthaethwy, gan fod y brydles wedi dod i ben a chyfrifoldeb am y maes parcio yn dychwelyd i Gyngor Tref Porthaethwy. Bydd y gostyngiad yn nifer y meysydd parcio yn cael effaith ar yr incwm a gesglir gan y Cyngor. Mae hyn yn golygu bod angen gostwng y gyllideb incwm meysydd parcio i £520k, gostyngiad o £58k.

### 3.8. Costau Pensiwn Hanesyddol

Mae'r Cyngor yn gwneud taliadau blynyddol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r Cynllun Pensiynau Athrawon o ganlyniad i staff yn ymddeol yn gynnar yn y 1970au, 1980au a'r 1990au. Mae nifer y pensiynwyr y mae'r taliad hwn yn berthnasol iddynt yn gostwng bob blwyddyn wrth i'r cyn aelodau o staff farw. O ganlyniad, mae'r gyllideb yn gostwng i adlewyrchu gostyngiad yn nifer y pensiynwyr, a'r gostyngiad ar gyfer 2020/21 yw £112k.

### 3.9. Costau Trwyddedau T.G.

Yn y gorffennol, ymdriniwyd â'r costau hyn fel costau cyfalaf ac roeddent yn cael eu cyllido o'r gyllideb gyfalaf. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cydymffurfio â'r côd cyfrifo diwygiedig a dylid trin y costau fel cost refeniw. Mae hyn yn golygu cynnydd o £250k yn y gyllideb refeniw ond mae'n rhyddhau cyllid cyfalaf.

### 3.10. Arall

Addaswyd nifer o gyllidebau eraill i adlewyrchu newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn sydd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth, mae'r rhain yn cynnwys cyllidebau incwm lle na fedr y Gwasanaeth bellach godi incwm. Mae gwerth net y newidiadau hyn yn £240k.

## 4. CRONFEYDD WRTH GEFN

**4.1.** Fel rhan o'r broses gyllidebu, caiff nifer o gyllidebau wrth gefn eu hadeiladu i mewn i'r gyllideb i dalu costau tymor penodol, risgiau posibl y bydd, efallai, angen eu cyllido yn ystod y flwyddyn neu fel arian wrth gefn cyffredinol a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn wrth i bwysau ychwanegol gael eu rhoddi ar y gyllideb neu os bydd pethau annisgwyl yn digwydd. Dangosir y newidiadau a wnaed i'r cyllidebau wrth gefn yn Nhabl 1 isod:-

| Tabl 1<br>Symudiadau yn y Cyllidebau Wrth Gefn rhwng 2019/20 a 2020/21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Dyddiad Gorffen** | **Cyllideb 2019/20**<br>**£'000** | **Cyllideb Arfaethedig 2020/21**<br>**£'000** | **Newid**<br>**£'000** |
| Prosiect Ranbarthol Stem | Wedi ei glustnodi | 2021/22 | 38 | 38 | - |
| Bid Twf Rhanbarthol | Wedi ei glustnodi | I'w gadarnhau | 50 | 50 | - |
| Risg yn gysylltiedig â galw am wasanaethau | Wedi ei glustnodi | Mynd Ymlaen | 235 | 235 | - |
| Tâl a Graddfeydd | Wedi ei glustnodi | Mynd Ymlaen | 400 | 150 | (250) |
| Gostyngiad Dewisol yn y Trethi Annomestig (NDR) | | Mynd Ymlaen | 60 | 70 | 10 |
| Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol ar gyfer Argyfyngau | | Mynd Ymlaen | 399 | 400 | 1 |
| **CYFANSWM** | | | **1,182** | **943** | **(239)** |

**4.2.** Mae Cyllideb Wrth Gefn Tâl a Graddfeydd wedi cael ei chynnwys yng nghyllideb y Cyngor am nifer o flynyddoedd er mwyn cwrdd â chost ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau, wrth i weithlu'r Cyngor ac ysgolion gael ei dorri mewn ymateb i ostyngiad yn y cyllid a dderbynnir. Mae gwelliant yn y sefyllfa ariannol yn 2020/21 yn caniatáu i'r Cyngor leihau'r gyllideb hon, gan nad oes disgwyl y bydd rhaid gwneud toriadau sylweddol i niferoedd staff yn 2020/21.

## 5. COSTAU STAFFIO

**5.1.** Bydd costau tâl yn newid yn flynyddol i adlewyrchu'r newidiadau o ran staff dros y flwyddyn (staff newydd yn cael eu penodi ar bwynt gwahanol ar y raddfa gyflog), staff yn derbyn hicyn (increment) cyflog bob blwyddyn a'r dyfarniad cyflog. Caiff effaith pob un o'r rhain ar y gyllideb ei nodi isod:-

**5.2.** Mae hicynnau cyflog i staff a newidiadau mewn swyddi wedi golygu cynnydd o £392k mewn costau.

**5.3.** Roedd y dyfarniad cyflog i Athrawon ar gyfer y flwyddyn academaidd yn cychwyn ym mis Medi 2019 yn 2.75%, gyda chynnydd uwch i athrawon newydd gymhwyso, ac roedd y swm hwn yn uwch na'r swm a ganiatawyd ar ei gyfer yng nghyllideb 2019/20. Yn 2019/20, dyfarnwyd grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i helpu i gyfarfod â'r pwysau ychwanegol hwn ar gostau. Mae £406k ychwanegol wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddisymud er mwyn gwneud addasiad am y tan-ddarpariaeth ar gyfer y dyfarniad cyflog yng nghyllideb 2019/20.

**5.4.** Nid yw'r dyfarniad cyflog o Ebrill 2020 ar gyfer staff nad ydynt yn dysgu yn hysbys ar hyn o bryd, na'r dyfarniad cyflog ar gyfer athrawon o fis Medi 2020, ac, o ganlyniad, caniatawyd ar gyfer cyfradd chwyddiant cyffredinol o 2%. Mae hyn yn ychwanegu £1.257m i'r gyllideb gyflogau gyffredinol.

**5.5.** Cwblhawyd prisiad tair blynedd o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ym mis Tachwedd 2019, gyda'r cyfraddau newydd ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwr i'w talu o 1 Ebrill 2020. Ar hyn o bryd, cyfradd y cyfraniad (cyfradd sylfaenol) yw 18.6% ynghyd â thaliad diffyg blynyddol ychwanegol o £1.294m, sydd gyfystyr â chyfraniad ychwanegol o 4% (cyfradd eilaidd), sy'n rhoi cyfradd cyflogwr cyfun o 22.6%. O fis Ebrill 2020, bydd y raddfa sylfaenol yn codi i 19.3% ond bydd y gyfradd eilaidd yn gostwng i 2.1%, gan roi cyfradd cyfraniad y cyflogwr cyfun o 21.4%. Bydd y gostyngiad o 1.2% yn y raddfa yn cynhyrchu £362k o arbedion cyllidebol.

## 6. CHWYDDIANT NAD YW'N GYSYLLTIEDIG Â THÂL

**6.1.** Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn caniatáu ar gyfer lefel chwyddiant cyffredinol o 2.1% ar brisiau. Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), a gydnabyddir yn eang yn awr fel y mesur gorau o chwyddiant, yn 1.5% ar hyn o bryd (ym mis Tachwedd 2019) a disgwylir iddo aros o gwmpas 2% yn 2020. Fodd bynnag, ni wyddys beth fydd effaith Brexit a gall arwain at gynnydd mewn chwyddiant petai'r DU yn gadael yr UE heb daro bargen. O'r herwydd, ystyrir bod cyfradd chwyddiant o 2.1% yn rhesymol ac mae'r gyfradd hon wedi cael ei defnyddio mewn perthynas â'r holl gyllidebau cyffredinol ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau. Lle mae gan gontractau penodol ddulliau penodol o benderfynu ar y cyfraddau chwyddiant perthnasol, bydd y cyfraddau penodol hynny wedi cael eu priodoli i'r gyllideb briodol.

**6.2.** Yn ystod y 3 blynedd diwethaf, cynyddwyd cyllidebau ffioedd a thaliadau anstatudol gan 3% a defnyddiwyd y ffigwr hwn unwaith eto yn 2020/21, er bod gan wasanaethau ryddid i gynyddu ffioedd a thaliadau unigol gan fwy neu lai na 3% ar yr amod bod y cynnydd cyffredinol mewn incwm yn 3%.

**6.3.** Cynnydd net yr addasiadau ar gyfer chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â thâl ac incwm anstatudol yw £1.594m.

## 7. PWYSAU AR Y GYLLIDEB A GWASANAETHAU A ARWEINIR GAN Y GALW AMDANYNT

**7.1.** Y gyllideb ddisymud yw'r gyllideb sydd ei hangen i ddarparu'r un lefel o wasanaeth ag a gafwyd yn 2019/20, ar ôl gwneud addasiadau ar gyfer unrhyw newidiadau y gwyddys amdanynt (fel y nodir ym mharagraffau 3 a 4 uchod) ac ar ôl addasu ar gyfer newidiadau staffio a chwyddiant tâl a phrisiau (fel y nodir ym mharagraffau 5 a 6). Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn darparu lefel realistig o gyllid, mae angen gwneud newidiadau ychwanegol er mwyn adlewyrchu'r galw cyfredol ac unrhyw bwysau ar y gyllideb y gwyddys amdanynt. Nodir y newidiadau arfaethedig yn y paragraffau isod.

**7.2. Gofal Cymdeithasol Oedolion**

Bydd Aelodau'n ymwybodol o'r cynnydd yn y galw am Ofal Cymdeithasol Oedolion, gyda niferoedd cleientiaid yn cynyddu ar draws pob math o wasanaeth, a disgwylir gorwariant o £1.21m yng nghyllideb y Gwasanaeth yn 2019/20. Yn 2019/20, derbyniodd y Cyngor ddau grant penodol gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda chynnydd mewn costau, sef:-

Grant y Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd - £30m ar draws Cymru, £670k i Ynys Môn. Mae'r grant wedi cynyddu i £40m yn y setliad dros dro, fydd yn golygu cynnydd pellach o £234k yn nyraniad Ynys Môn.

Grant Pwysau'r Gaeaf – yn 2019/20, derbyniodd y Cyngor £371k o'r £17m o gyllid ychwanegol a ddyrannwyd i Gymru yn hwyr yn y flwyddyn gyllidol. Er bod y Cyngor wedi derbyn y grant hwn yn flaenorol, nid oes unrhyw arwydd y bydd yn ei dderbyn eto yn 2020/21.

Gan fod y grantiau yma y tu allan i'r setliad llywodraeth leol, ni ellid fod yn sicr byddant yn parhau. Yn ogystal, mae'n ansicr sut bydd y galw am wasanaethau yn newid yn y flwyddyn i ddod. Ar ôl caniatáu am y Grant Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd, y sefyllfa sylfaenol yw bod angen cyllideb ychwanegol. Ar gyfer cyllideb refeniw 2020/21, mae £980k wedi cael ei gynnwys yng nghyllideb y gwasanaeth fel cyllid ychwanegol ond efallai ni fydd hyn yn ddigonol i gwrdd â'r galw cynyddol am wasanaethau ac o ganlyniad i'r ansicrwydd ynglŷn â chyllid grant y dyfodol.

### 7.3. Cludiant Ysgol

Mae costau cludiant ysgol (tacsis a bysiau mini) wedi bod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd ers nifer o flynyddoedd, o ganlyniad i gynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae'r Gwasanaeth Addysg wedi cymryd nifer o gamau i geisio lleihau'r gost, gan gynnwys rhesymoli ac aildendro llwybrau, adolygu'r polisi a gweithredu'r polisi yn fwy llym, ac mae'r newidiadau hyn wedi arwain at leihau costau. Fodd bynnag, mae'r costau'n parhau i fod £250k yn uwch na'r gyllideb ac, oni bai bod y gyllideb yn cael ei chywiro ar gyfer 2020/21, mae bron yn anorfod y bydd y gyllideb yn gorwario yn 2020/21.

### 7.4. Integreiddio yn yr Ysgolion Uwchradd

Mae galw o fewn y gyllideb hon yn parhau i dyfu. Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb yn cael ei dal yn ganolog ac nid yw'n cael ei dyrannu i'r 5 ysgol uwchradd. Gellid ystyried bod hyn yn wendid o ran rheoli'r gyllideb hon ac atebolrwydd oherwydd nad yw penderfyniadau ynghylch gwariant yn cael eu gwneud gan y sawl sy'n dal y gyllideb. Byddai ychwanegu £200k o gyllid yn cywiro sefyllfa'r gyllideb ac yn cynyddu'r posibilrwydd o gyrraedd cytundeb gyda'r ysgolion Uwchradd i ddatganoli'r gyllideb iddynt.

### 7.5. Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion

Fel rhan o gyllideb 2019/20, gwnaed cynlluniau i dorri £800k o gyllidebau datganoledig ysgolion, ond gohiriwyd y cynlluniau am flwyddyn a'i gyllido o'r grant ychwanegol ar gyfer Tâl Athrawon a 50% o'r Grant Pensiynau Athrawon. Mae'r grantiau hyn yn awr wedi cael eu trosglwyddo i'r setliad a byddai'n caniatáu i'r Pwyllgor Gwaith wrthdroi'r penderfyniad i leihau'r gyllideb pe bai'n dymuno.

### 7.6. Grant Cyllido'r GIG

Roedd penderfyniad diweddar yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyfrannu at gost y gofal cymdeithasol a ddarperir gan staff nyrsio mewn cartrefi Nyrsio. Yn 2019/20, cyllidwyd y gost ychwanegol drwy grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grant hwn yn awr wedi cael ei ymgorffori yn y setliad ac ymgorfforwyd £48k o gyllid ychwanegol yng nghyllideb Gwasanaethau Oedolion.

## 8. CYLLIDEB DDISYMUD 2020/21

**8.1.** Yn seiliedig ar yr holl addasiadau a thybiaethau y manylir arnynt uchod, mae cyfanswm y gyllideb ddisymud ar gyfer 2020/21 yn £142.203m, cynnydd o £6.993m ar gyllideb derfynol 2019/20. Mae crynodeb o'r newidiadau a wnaed ynghlwm yn Atodiad 2. Mae manylion y gyllideb ddisymud yn ôl Gwasanaeth ynghlwm fel Atodiad 3.

## 9. SETLIAD DROS DRO

**9.1.** Mae'r setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2019, yn dangos cynnydd o £237m yn y cyllid cyffredinol ar gyfer Cymru, sy'n cyfateb i gynnydd o 5.6% mewn termau ariannol. Fodd bynnag, mae £53.2m yn ymwneud â grantiau a drosglwyddwyd i mewn ac, ar ôl gwneud addasiadau ar gyfer y rhain, mae'r ffigwr gwirioneddol yn dangos cynnydd o £183.8m, sydd yn gynnydd o 4.3%. Dangosir y manylion yn Nhabl 2 isod:-

| Tabl 2<br>Setliad Dros Dro 2020/21 | | |
|---|---|---|
| | **Ynys Môn** | **Cymru** |
| | **£'m** | **£'m** |
| AEF 2019/20 | 95.791 | 4,237.431 |
| | | |
| Addasiad ar gyfer y Newid yn Sylfaen y Dreth | 0.325 | 0.000 |
| | | |
| **Grantiau Blynyddoedd Blaenorol a Drosglwyddwyd i Mewn / (Allan)** | | |
| Pensiynau Athrawon | 0.887 | 39.112 |
| Rheoli Risg Arfordirol | 0.000 | 0.151 |
| Cyllido'r GIG – Nyrsio | 0.048 | 1.900 |
| Tâl Athrawon | 0.273 | 12.018 |
| | | |
| **AEF 2019/20 wedi'i addasu** | **97.324** | **4,290.612** |
| **AEF Dros Dro 2020/21** | **101.005** | **4,474.444** |
| **Cynnydd o gymharu ag AEF 2019/20** | **5.214** | **237.013** |
| **% Cynnydd o gymharu ag AEF 2019/20** | **+ 5.44%** | **+ 5.59%** |
| **Cynnydd o gymharu ag AEF 2019/20 wedi'i addasu** | **3.681** | **183.832** |
| **% Cynnydd o gymharu ag AEF 2019/20 wedi'i addasu** | **+ 3.78%** | **+ 4.28%** |

**9.2.** Mae'r ystadegau poblogaeth a ddefnyddir yn y fformiwla cyllido wedi cael eu diweddaru ac mae Ynys Môn wedi gweld gostyngiad yn yr AEF oherwydd y newid hwn gan fod y ffigyrau poblogaeth diwygiedig ar gyfer Ynys Môn yn is nag a ragwelwyd yn flaenorol. Mae rhai awdurdodau wedi elwa o'r newid hwn, Casnewydd yn arbennig, ac mae hyn yn esbonio'r cynnydd o 5.4% yn eu dyraniad.

**9.3.** Mae'r setliad dros dro hefyd yn cynnwys manylion nifer o grantiau, er na restrir y dyraniadau unigol fesul Awdurdod. Mae'r grantiau'n cynnwys Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd fydd yn cynyddu o £30m i £40m. Bydd Ynys Môn yn derbyn (tua) £234k yn ychwanegol o'r cynnydd yn y grant hwn (gweler paragraff 7.2 uchod).

## 10. Y BWLCH CYLLIDO

**10.1.** Yn seiliedig ar gyllideb ddisymud o £142.203m a lefel AEF o £101.005m, caiff y gwariant net sydd i'w gyllido o'r Dreth Gyngor ei ddangos yn Nhabl 3 isod:-

| Tabl 3<br>Y Bwlch Cyllidebol 2020/21 | | |
|---|---|---|
| | £'m | £'m |
| **Y Gyllideb Ddisymud** | | **142.203** |
| Wedi'i chyllido o: | | |
| Grant Cymorth Refeniw (RSG) | 76.692 | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | 24.313 | |
| **Cyfanswm y Cyllid Allanol Cyfun (AEF)** | | **101.005** |
| Cyfanswm y Gwariant Net sydd i'w gyllido o'r Dreth Gyngor | | **41.198** |
| Cyllideb Treth Gyngor 2019/20 (wedi'i addasu ar gyfer y newid yn sail y dreth) | | (39.370) |
| **Diffyg Cyllidebol (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor)** | | **1.828** |

**10.2.** Caiff effaith y gwahanol lefelau o gynnydd yn y Dreth Gyngor ac ar y tâl cyfatebol ar gyfer eiddo Band D (£1,248.57 yn 2019/20) ei dangos yn Nhabl 4 isod:-

| Tabl 4<br>Effaith y gwahanol lefelau o gynnydd yn y Dreth Gyngor ar y Diffyg Cyllidebol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **% Cynnydd** | **Y Dreth Gyngor<br>£'m** | **Diffyg Cyllidebol/ (Gwarged)<br>£'m** | **Effaith wythnosol ar Fand D<br>£** | **Cyfanswm y Cynnydd ym Mand D<br>£** |
| 1.0 | 39.765 | 1.433 | 0.24 | 12.51 |
| 1.5 | 39.961 | 1.237 | 0.36 | 18.72 |
| 2.0 | 40.157 | 1.041 | 0.48 | 24.93 |
| 2.5 | 40.355 | 0.843 | 0.60 | 31.23 |
| 3.0 | 40.551 | 0.647 | 0.72 | 37.44 |
| 3.5 | 40.750 | 0.448 | 0.84 | 43.74 |
| 4.0 | 40.946 | 0.252 | 0.96 | 49.95 |
| 4.5 | 41.141 | 0.057 | 1.08 | 56.16 |
| 4.64 | 41.198 | 0.000 | 1.11 | 57.93 |
| 5.0 | 41.340 | (0.142) | 1.20 | 62.46 |
| 5.5 | 41.536 | (0.338) | 1.32 | 68.67 |
| 6.0 | 41.732 | (0.534) | 1.44 | 74.88 |

**10.3.** Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn amcangyfrif y byddai'r bwlch cyllido, cyn cynyddu'r Dreth Gyngor, yn £3.8m a, gyda chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, byddai'r bwlch cyllido yn gostwng i £1.8m. O'r herwydd, gofynnwyd i wasanaethau nodi arbedion posib dros y 3 blynedd nesaf, pe bai gostyngiad o 2%, 5% neu 10% yn eu cyllidebau. Roedd y mwyafrif o wasanaethau'n gallu nodi arbedion a fyddai'n cyflawni'r targed o 2% o ostyngiad yn y gyllideb, ond roeddent yn ei chael yn anodd cyrraedd y targed o 5% heb wneud toriadau arwyddocaol yn lefel y gwasanaethau a ddarperir. Byddai cyflawni toriad o 10% yn golygu gwneud toriadau sylweddol i wasanaethau neu roi terfyn ar rywfaint o ddarpariaethau gwasanaeth dewisol.

**10.4.** Trafododd yr Aelodau y cynigion arbedion mewn nifer o weithdai a gynhaliwyd ddechrau'r hydref, a nododd y gwaith hwn oddeutu £343k o arbedion y gellid eu gweithredu yn 2020/21 heb gael effaith na ellir ei reoli ar wasanaethau. Mae'r cynigion hyn yn cael eu nodi yn Atodiad 4.

**10.5.** Mae'r setliad gwell na'r disgwyl wedi lleihau'r angen i weithredu'r arbedion. Fel y dangosir yn Nhabl 4 uchod, byddai modd cyllido'r angen cyllidebol ar gyfer 2020/21 gyda chynnydd o 4.64% yn y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, byddai gweithredu rhai neu'r cyfan o'r arbedion a nodwyd yn rhoi elfen o hyblygrwydd ac mae'r opsiynau canlynol ar gael petai'r arbedion yn cael eu gweithredu. Mae'r opsiynau sydd ar gael yn cynnwys:-

- Cynyddu cyllidebau refeniw'r gwasanaethau sydd dan bwysau;
- Cynyddu lefel y balansau cyffredinol;
- Defnyddio'r arian dros ben yn y gyllideb refeniw i gyllido gwariant cyfalaf yn 2020/21;
- Lleihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor.

**10.6** Mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2021/22 yn parhau i fod yn aneglur, ac efallai y byddwn yn gweld llymder yn dychwelyd a'r angen i wneud arbedion pellach. Petai'r arbedion yn cael eu gweithredu a'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gynyddu lefel y balansau cyffredinol neu i gyllido gwariant cyfalaf yn 2020/21, yna byddai'r Cyngor mewn gwell sefyllfa ariannol yn 2021/22, gan nad yw gweithredu'r opsiynau hyn yn cynyddu'r gyllideb refeniw yn barhaol nac yn lleihau'r cyllid sydd ar gael.

## 11. CYNLLUN ARIANNOL DIWYGIEDIG AR GYFER Y TYMOR CANOL

**11.1** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn amcangyfrif y bydd rhaid i gyllideb refeniw net y Cyngor gynyddu £5m yn 2021/22 a £3.6m yn 2022/23, dim ond er mwyn cyfarfod â chynnydd mewn chwyddiant tâl a phrisiau, cynnydd yng nghostau contractau a dendrwyd a chynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau, yn arbennig Gofal Cymdeithasol.

**11.2** Nid yw setliad dros dro 2020/21 yn rhoi unrhyw arwydd ynghylch beth fydd y sefyllfa gyllido yn y ddwy flynedd ddilynol. Bydd llawer yn ddibynnol ar y llywodraeth Geidwadol newydd a'u cynlluniau ar gyfer gwariant cyhoeddus a fydd yn cael eu hamlinellu yng nghyllideb y Canghellor ym mis Mawrth 2020. Dylid nodi y bydd unrhyw gyllid ychwanegol a gyhoeddir i Loegr yn arwain at gyllid ychwanegol i Gymru, ond Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu sut i wario'r cyllid ychwanegol yma. Nid yw'n dilyn o reidrwydd y bydd unrhyw gyllid ychwanegol a gyhoeddir ar gyfer Ysgolion neu Lywodraeth Leol yn Lloegr yn cael ei drosi'n gyllid ychwanegol i Ysgolion a Llywodraeth Leol yng Nghymru.

**11.3** Pe byddai'r setliad yn 2021/22 a 2022/23 yn dangos cynnydd yn cyfateb i chwyddiant h.y. oddeutu 2%, bydd y Cyngor yn wynebu gwneud toriadau cyllidebol pellach a chynnydd uwchlaw chwyddiant yn y Dreth Gyngor yn ystod y blynyddoedd hynny.

## 12. MATERION I'W PENDERFYNU

**12.1** Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 10 Mawrth 2020. Fodd bynnag, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y canlynol ar hyn o bryd:-

**i.** Cymeradwyo'r addasiadau i'r Gyllideb sydd wedi eu cynnwys yn y Gyllideb Ddisymud fel y nodir ym Mharagraffau 4 i 7;

**ii.** Cymeradwyo'r gyllideb ddisymud o £142.203m ar gyfer 2020/21 ac y dylai hon fod yn sylfaen i gyllideb refeniw 2020/21 (para 8.1);

**iii.** Bod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniad ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21 a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus (para 10.2)

**iv.** Wedi caniatáu ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor a'r arbedion fydd yn cael eu gweithredu, dylai'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad ar sut i ddefnyddio unrhyw gyllid dros ben (para 10.5),petai rhywfaint;

**v.** Bod y Pwyllgor Gwaith yn mofyn barn y cyhoedd ar y strategaeth gyllidebol arfaethedig.

**ATODIAD 2**

**DADANSODDIAD O'R SYMUDIADAU O'R GYLLIDEB DERFYNOL 2019/20 I GYLLIDEB DDISYMUD 2020/21**

| | Cyllideb Ddisymud | | Cyf Adroddiad |
|---|---|---|---|
| | £'m | £'m | |
| **Cyllideb 2019/20** | | **135.210** | |
| | | | |
| **Newidiadau Ymrwymedig** | | | |
| Cyllido Cyfalaf | (0.113) | | Para 3.2 |
| Niferoedd Disgyblion | 0.082 | | Para 3.3 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 0.627 | | Para 3.4 |
| Ardoll y Gwasanaeth Tân | 0.071 | | Para 3.5 |
| Cyfraniadau'r Cyflogwr i Bensiynau Athrawon | 0.564 | | Para 3.6 |
| Incwm Meysydd Parcio | 0.058 | | Para 3.7 |
| Cyfraniadau Pensiwn Hanesyddol | (0.112) | | Para 3.8 |
| Trwyddedu TG | 0.250 | | Para 3.9 |
| Newidiadau Ymrwymedig Eraill | 0.240 | | Para 3.10 |
| | | **1.667** | |
| | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | **(0.239)** | Para 4 |
| | | | |
| **Costau Staffio** | | | |
| Hicynnau cyflog | 0.392 | | Para 5.2 |
| Dyfarniad Cyflog Athrawon | 0.406 | | Para 5.3 |
| Dyfarniad Cyflog Staff nad ydynt yn Athrawon | 1.257 | | Para 5.4 |
| Cyfraniad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | (0.362) | | Para 5.5 |
| | | **1.693** | |
| | | | |
| Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau | | **1.594** | Para 6.3 |
| | | | |
| **Pwysau ar gyllidebau a arweinir gan y galw** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 0.980 | | Para 7.2 |
| Cludiant Ysgol | 0.250 | | Para 7.3 |
| Integreiddio Uwchradd | 0.200 | | Para 7.4 |
| Cyllidebau Datganoledig Ysgolion | 0.800 | | Para 7.5 |
| Grant Nyrsio'r GIG a drosglwyddwyd i mewn | 0.048 | | Para 7.6 |
| | | **2.278** | |
| | | | |
| **CYLLIDEB DDISYMUD 2020/21** | | **142.203** | |

| CYLLIDEB DDISYMUD 2020/21 YN ÔL GWASANAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | **Cyllideb 2019/20** | **Cyllideb Ddisymud 2020/21** | **Symudiad** | **% Newid** |
| | **£'m** | **£'m** | **£'m** | **%** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | |
| Ysgolion | 38.659 | 41.374 | + 2.715 | + 7.02 |
| Addysg Ganolog | 10.589 | 11.404 | + 0.815 | + 7.70 |
| Diwylliant | 1.213 | 1.244 | + 0.031 | + 2.56 |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **50.461** | **54.022** | **+ 3.561** | **+ 7.06** |
| | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| Priffyrdd | 6.037 | 6.339 | + 0.302 | + 5.00 |
| Eiddo | 0.848 | 0.898 | + 0.050 | +5.90 |
| Gwastraff | 7.718 | 8.029 | + 0.311 | + 4.03 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | **14.603** | **15.266** | **+ 0.663** | **+ 4.54** |
| | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | |
| Datblygu Economaidd a Morwrol | 1.076 | 1.254 | + 0.178 | + 16.54 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2.042 | 2.153 | + 0.111 | + 5.44 |
| Hamdden | 0.647 | 0.668 | + 0.021 | + 3.25 |
| **Cyfanswm Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | **3.765** | **4.075** | **+ 0.310** | **+ 8.23** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | **25.131** | **26.859** | **+ 1.728** | **+ 6.88** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | **10.273** | **10.543** | **+ 0.270** | **+ 2.62** |
| | | | | |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1.258 | 1.297 | + 0.039 | + 3.10 |
| TGCh | 2.386 | 2.800 | + 0.414 | + 17.35 |
| Trawsnewid | 0.827 | 0.902 | + 0.075 | + 9.07 |
| **Cyfanswm Trawsnewid Corfforaethol** | **4.471** | **4.999** | **+ 0.528** | **+ 11.81** |
| | | | | |
| **Tai** | **1.211** | **1.267** | **+ 0.056** | **+ 4.62** |
| | | | | |
| **Adnoddau** | **3.048** | **3.141** | **+ 0.093** | **+ 3.05** |
| | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | **1.625** | **1.669** | **+ 0.044** | **+ 2.71** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **114.588** | **121.841** | **+ 7.253** | **+ 6.33** |
| | | | | |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | | | | |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.686 | 0.626 | - 0.060 | - 8.87 |
| Ardollau | 3.527 | 3.599 | + 0.072 | + 2.04 |
| Corfforaethol a Democrataidd | 3.352 | 2.807 | - 0.545 | - 16.26 |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 7.052 | 6.939 | - 0.113 | - 1.60 |
| Buddion a Ganiatawyd | 0.112 | 0.112 | 0.000 | 0.00 |
| CRT – ad-daliadau | (0.678) | (0.700) | - 0.022 | - 3.24 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5.389 | 6.016 | + 0.627 | + 11.63 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1.122 | 0.893 | - 0.229 | - 20.40 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 0.060 | 0.070 | 0.010 | + 16.67 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Corfforaethol** | **20.622** | **20.362** | **- 0.260** | **- 1.26** |
| | | | | |
| **CYFANSWM CYLLIDEB DDISYMUD 2020/21** | **135.210** | **142.203** | **+ 6.993** | **+ 5.17** |

**ATODIAD 4**

**ARBEDION CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2020/21**

| **Arbediad Arfaethedig** | **Gwasanaeth** | **Arbedion Tebygol £'000** |
|---|---|---|
| Lleihau'r gost o redeg fflyd cerbydau'r Cyngor drwy fuddsoddi mewn cerbydau sydd yn rhatach ar danwydd (trydan a LPG) a thrwy wella gweithdrefnau gweinyddol i leihau amser segur cerbydau. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 10 |
| Aildrefnu'r rota tu allan i oriau'r tîm atgyweirio Eiddo er mwyn lleihau cost y gwasanaeth presennol. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 11 |
| Cynyddu Ffioedd Parcio – Safleoedd Arfordirol - cynyddu'r gyfradd £3.50 bresennol i £4.00, y gyfradd £4.50 bresennol i £6.00 a'r gyfradd £6.00 bresennol i £8.00. Safleoedd mewn Trefi – Dileu'r raddfa 50c a gwneud y taliad sylfaenol yn £1, cynyddu'r gyfradd £1.50 bresennol i £1.80, y gyfradd £2.00 bresennol i £2.50 a'r gyfradd £3.00 bresennol i £4.00. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 83 |
| Dileu'r cyllidebau ar gyfer llinellau ffôn a ffonau symudol nad oes fawr o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt. | Trawsnewid | 5 |
| Lleihau cost cynnal digwyddiadau Dinesig penodol. | Busnes y Cyngor | 8 |
| Lleihau cyllidebau postio o ganlyniad i fuddsoddi yn y systemau Cyflogres a Budd-daliadau Tai sydd wedi caniatáu i wybodaeth gael ei drosglwyddo'n electronig yn hytrach na phostio dogfennau papur. | Adnoddau | 10 |
| Lleihau Cyllidebau Caffael Corfforaethol – mae dull corfforaethol o brynu rhai nwyddau a gwasanaethau wedi cynhyrchu arbedion y gellir eu rhyddhau yn awr. | Adnoddau | 50 |
| Cynyddu incwm o Barc Gwledig y Morglawdd. | Rheoleiddio | 1 |
| Dileu gweddill y gyllideb Cyfleusterau Awyr Agored yn dilyn trosglwyddo'r asedau o reolaeth y Cyngor. | Rheoleiddio | 37 |
| Cynyddu ffioedd morwrol gan ddod â'r moratoriwm presennol ar gynyddiadau i ben. | Rheoleiddio | 5 |
| Lleihau capasiti gweinyddol y Tîm Rheoli Datblygu. Mae'r buddsoddiad diweddar yn y system gynllunio yn caniatáu i'r gostyngiad hwn gael ei weithredu. | Rheoleiddio | 22 |
| Dileu'r swydd Swyddog Datblygu Strategol – mae'r swydd yn wag ar hyn o bryd. | Tai | 27 |
| Lleihau'r gost o ddarparu cefnogaeth weinyddol i'r Pennaeth Tai. | Tai | 4 |
| Cyfalafu costau staffio ynghlwm â darparu grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. | Tai | 36 |
| Addasu'r costau a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau. | Tai | 19 |
| Dileu cyllidebau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn dilyn adolygiad o gyllidebau gwasanaeth. | Tai | 15 |
| **Cyfanswm Arbedion Posib i'w Gweithredu** | | **343** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **13 Ionawr, 2020** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2020/21 (Cyfalaf)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer 2020/21** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio :** | **Y Cynghorydd Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Adnoddau / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| 1 – Argymhelliad/ion |
|---|
| Ar hyn o bryd yn y broses gosod cyllideb, gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ynghylch cynigion cychwynnol y Cyngor ar gyfer cyllideb gyfalaf 2020/21 (gan ddefnyddio'r Cwestiynau Allweddol ym mharagraff 4 isod) a chan gymryd i ystyriaeth sylwadau a wnaed gan y Panel Sgriwtini Cyllid. |

| 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol 2020/21:<br><br>i. O ystyried yr adnoddau cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael, a yw'r Pwyllgor o'r farn bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o ffynonellau cyllid?<br>ii. Sut mae cynigion cyfalaf 2020/21 yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid yn y tymor canol, yn ogystal â chydbwyso blaenoriaethau tymor byr?<br>iii. Sut mae'r Cyngor wedi paratoi dros y blynyddoedd diwethaf ar gyfer cyllid cyfalaf sy'n prinhau. Beth yw'r risgiau wrth symud ymlaen?<br>iv. Ydy'r gyllideb ddrafft yn galluogi'r Cyngor i fanteisio ar gyfleoedd grantiau posibl i gefnogi'r amcanion strategol? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn. Mae ein dull o graffu ariannol yn dod i'r amlwg fel model o arfer dda.

**1.2 Strategaeth Gyfalaf 2019/20 – 2021/22**

Mae Côd Darbodus diwygiedig CIPFA [1] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth gyfalaf er mwyn:

- Nodi'r cyd-destun tymor hir y dylid gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi ynddo
- Fel ffordd o sicrhau bod Cynghorau'n gwneud penderfyniadau cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion a blaenoriaethau gwasanaeth
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd ystyriaeth briodol o stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd wrth osod eu rhaglenni cyfalaf.

Mabwysiadwyd strategaeth gyfalaf a rhaglen gyfalaf yr Awdurdod am 2019/20 - 2021/22 gan y Cyngor Llawn ym mis Mai, 2019.[2] Mae'n nodi'r amcanion, yr egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cymryd penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi yn unol â Chynllun y Cyngor a

[1] Côd Darbodus Diwygiedig (CIPFA) dyddiedig Medi 2017
[2] Cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 14 Mai, 2019.

blaenoriaethau trawsnewid lleol. Un o egwyddorion sylfaenol y Strategaeth yw canolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni amcanion allweddol Cynllun y Cyngor ac sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol:

i. Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
ii. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
iii. Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, gan amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar elfen cyllido cyfalaf y cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd am y cyfnod 2019/20 - 2021/22. Hefyd, mae'r strategaeth yn nodi'r egwyddorion tymor hir sy'n sail i gynllunio cyfalaf i'r dyfodol.

**1.3 Egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf**

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn trafod nifer o egwyddorion tymor hir a ddylai fod yn sail i raglen gyfalaf y Cyngor:

- Dylai'r rhaglen gyfalaf flynyddol ganolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at y blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017/2022
- Dylid dyrannu cyllid cyfalaf bob blwyddyn i sicrhau buddsoddiad ynn yr asedau cyfredol
- Bydd y Cyngor yn sicrhau'r cyllid cyfalaf allanol mwyaf posib os oes modd gwneud hynny ac os yw'n fforddiadwy
- Blaenoriaethir cyllid cyfalaf hefyd i'w wario ar asedau sydd raid wrthynt i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol
- Ymrwymiad parhaus i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac i ddefnyddio'r cyllid allanol sydd ar gael yn llawn

**1.4 Ffynonellau Cyllido'r Gyllideb Gyfalaf**

Ariennir rhaglen gyfalaf flynyddol y Cyngor trwy nifer o ffynonellau cyllid:

- Derbyniadau Cyfalaf
- Cyfraniad gan Refeniw
- Benthyca â Chefnogaeth
- Benthyca Di-gefnogaeth
- Grant Cyfalaf Cyffredinol
- Grantiau Allanol
- Lwfans Atgyweirio Mawr

**1.5** Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynnol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hirach y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol) ac amcanion a blaenoriaethau tymor hir y Cyngor ( fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor).

**2 GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2020/21**

**2.1** Ynghlwm mae adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ar y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2020/21 **(ATODIAD 1)**. Mae'r papur yn cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Sefyllfa gyllideb gyfalaf gychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2020/21
- Lefel y gwariant cyfalaf
- Effeithiau benthyca ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf
- Costau refeniw parhaus (fel cynhaliaeth)
- Pwysau cyllidebol
- Risgiau
- Effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol a Chynllun y Cyngor

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2020/21**

3.1 Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen i'r Aelodau fod yn sicr bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sy'n lleihau, yn enwedig cyllid:

*"… Mae pwysigrwydd craffu effeithiol yn cynyddu wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang, tra'n ceisio'n barhau i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau, yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau'n dryloyw ac yn unol ag anghenion y gymuned leol… ..*[3] *"*

Dylai sut i ychwanegu gwerth ym mhob cam o'r broses ariannol fod y cwestiwn allweddol o safbwynt sgriwtini ariannol. Mae'r **broses gosod cyllideb gyfalaf** yn un o'r camau allweddol hynny.

3.2 Mae sgriwtini ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau sgriwtini effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4 PANEL SGRIWTINI CYLLID**

4.1 Rhoddodd y Panel ystyriaeth fanwl i'r cynigion cychwynnol drafft ar gyfer y gyllideb gyfalaf yn ei gyfarfod diwethaf (ar 9 Ionawr, 2020). Bydd crynodeb o drafodaethau'r Panel yn cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, sef Cadeirydd y Panel.

[3] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth Wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014

| | |
|---|---|
| **5** | **Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD**<br>5.1 Bydd yr ymarfer ymgynghori yn adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o dan gyfarwyddyd y Cyd-Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori a sefydlwyd gyda phartneriaid yn y 3ydd Sector.<br>5.2 I'r perwyl hynny a chan fod eleni yn flwyddyn unigryw o ran amseriad cyhoeddi'r Setliad Cychwynnol, bydd y broses ymgynghori yn ymgymryd â'r camau canlynol:<br>i. Adroddiad cyllidol i bwrpas sylwadau ar wefan y Cyngor<br>ii. Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned gan ychwanegu gwahoddiad i bartneriaid<br>iii. Fforwm Plant a Phobl Ifanc<br>iv. Fforwm Cyllid Ysgolion<br><br>Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn rhedeg o 14 Ionawr tan 7 Chwefror, 2020. |
| **6** | **MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**<br>7.1 Bydd proses gosod cyllideb 2020/21 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb gyfalaf ddrafft ac unrhyw risgiau. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft cychwynnol. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[4] ar gynigion cychwynnol y Cyngor ar gyfer cyllideb gyfalaf 2020/21 (gan ddefnyddio'r Cwestiynau Sgriwtini Allweddol ym mharagraff 4 uchod). |
| | |

| **6 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses ac wrth baratoi ar gyfer ystyriaeth o'r cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb 2020/21. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2020/21, sy'n cynnwys ystyried y cynigion cyllideb cychwynnol ar gyfer y gyllideb gyfalaf. |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| **ATODIAD 1:** adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2020/21. |
| **9 – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad os gwelwch yn dda am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Dyddiad: 02/01/20**

[4] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 13 Ionawr, 2020

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **13 IONAWR 2020** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB GYFALAF GYCHWYNNOL 2020/21** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br>**EST. 2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21, a gyflwynir i'r Cyngor llawn ei chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2020.

## 2. ARGYMHELLION

- Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2020/21 i'r Cyngor llawn:-

| | Cyf | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen | Para 4.1 a Tabl 2 | 3,294 |
| Adnewyddu / Amnewid Asedau | Para 4.2.2 a Tabl 3 | 5,158 |
| Prosiectau Cyfalaf Newydd Untro | Para 5.2 a Tabl 4 | 2,174 |
| Mân Ddaliadau a gyllidwyd o dderbyniadau cyfalaf | Para 5.7 | 100 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | Para 6 | 9,039 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 17,138 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2020/21** | | **36,903** |
| | | |
| **Cyllidir drwy:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,165 |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | | 2,364 |
| Derbyniadau Cyfalaf | | 245 |
| Arian Cyfalaf Wrth Gefn | | 500 |
| Benthyca â Chefnogaeth - Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 2,680 |
| Benthyca Di-gefnogaeth - Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 3,679 |
| Arian CRT Wrth Gefn a Gwarged yn y Flwyddyn | | 14,228 |
| Benthyca Di-gefnogaeth CRT | | 250 |
| Grantiau Allanol | | 7,572 |
| Cyllid 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen | | 3,219 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2020/21** | | **36,903** |

- Bod yr arian wrth gefn TAW Hamdden ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf posibl o werthiant arfaethedig y cwrs golff yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith pan gyflwynir y Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol i'r Pwyllgor Gwaith. Bod y £32k sy'n weddill yn cael ei gario drosodd fel cyllid i'w ddefnyddio yn 2021/22.
- I nodi'r gofynion cyllido posibl ar gyfer y dyfodol ar gyfer 2021/22 ymlaen (Atodiad 1 Tabl 3 a pharagraff 5.5).

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Bydd nifer o gynlluniau ychwanegol yn cael eu hystyried yn y rhaglen gyfalaf gyda fforddiadwyedd a gwneud y mwyaf o gyllid grant allanol fel y prif ffactorau cyllidol. Nid yw'r rhaglen gyfalaf arfaethedig a'r cynlluniau Cyfalaf ychwanegol, os cânt eu cefnogi, yn ymrwymo'r Cyngor i lefel o fenthyca sy'n cynyddu'r ddarpariaeth isafswm refeniw neu daliadau llog i lefel na ellir ei fforddio

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith gynnig y gyllideb gyfalaf.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/b

**DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae sylwadau gan yr UDA wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | D/b – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

**E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad ar y Gyllideb Gyfalaf 2020/21
Atodiad 2 – Cyllideb Cyfalaf Arfaethedig 2020/21

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad Strategaeth Cyfalaf – Pwyllgor Gwaith 30 Hydref 2017
Cyllideb Cyfalaf 2019/20 – Cyngor llawn 27 Chwefror 2019

**CYLLIDEB CYFALAF DRAFFT 2020/21**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r Gyllideb Cyfalaf drafft ar gyfer 2020/21, a nodir isod, yn cymryd i ystyriaeth yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn Chwefror 2019 a'r Cyngor llawn ym Mai 2019.

## 2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH GYFALAF

**2.1.** Cafodd Strategaeth Gyfalaf 2019/20 ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn a caiff ei diweddaru ar gyfer 2020/21 i adlewyrchu'r lefelau cyllid newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a osodir allan yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2020/21, a gymeradwyir gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym Mawrth 2020.

**2.2.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf bresennol yn nodi'r egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth benderfynu ar ei raglen gyfalaf:-

- Bob blwyddyn bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol.
- Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf allanol pan fo hynny'n bosib ac yn fforddiadwy.
- Bydd cyllido cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.
- Mae'r Cyngor yn dal i fod yn ymroddedig i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a bydd yn parhau i wneud defnydd llawn o'r cyllid allanol sydd ar gael trwy'r Rhaglen.

**2.3.** Aeth y strategaeth wedyn ymlaen i ddarparu ychydig mwy o wybodaeth ar sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu darparu a cafodd y pwyntiau allweddol canlynol eu cynnwys:-

- Bod y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor.
- Bod amnewid asedau presennol neu rhai wedi darfod hefo'r budd o ostwng costau refeniw a bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i wella, neu amnewid, offer TG presennol, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor.
- Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf i gwrdd â gofyniad statudol y Cyngor i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl.
- Bod lefel o waith gwelliannau ffyrdd yn cael ei gyllido o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir yn ddibynnol ar y cyllid sydd ei angen i gyflawni unrhyw warantau gwerth isafswm contractau, lefel y cyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod.
- Bydd prosiectau sydd angen lefel o gyllid cyfatebol yn cael eu hasesu fesul achos, bydd y penderfyniad i ymrwymo cyllid ai peidio yn ddibynnol ar y prosiect, sut mae'n ffitio i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw sy'n parhau a'r gymhareb o gyllid y Cyngor i'r cyllid grant.
- Ni fydd prosiectau a gyllidir o fenthyca di-gefnogaeth ond yn cael eu cyflawni os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw neu'r incwm uwch a gynhyrchir yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol a grëir.

**2.4.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn nodi sut y dylid sgorio unrhyw fid newydd fel â ganlyn:-

- Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol – sgôr allan o 20;
- A yw'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol – sgôr allan o 10;
- A yw'r prosiect yn arwain at arbedion refeniw – sgôr allan o 10;
- A yw'r prosiect yn helpu i liniaru Risg Corfforaethol – sgôr allan o 10.

## 3. CYLLIDO RHAGLEN CYFALAF 2020/21

**3.1.** Mae'r cyllid sydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2020/21 i'w weld yn Nhabl 1 isod. Dylid nodi fod y ffigyrau ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau'r setliad Llywodraeth Leol dros dro. Ni fydd y ffigwr terfynol yn hysbys tan y cyhoeddir ffigyrau'r setliad terfynol ar 25 Chwefror 2020. Mae lefel y cyllid o dan y ddau bennawd wedi parhau yn gymharol gyson dros nifer o flynyddoedd a ni ragwelir y bydd newid sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol.

**Tabl 1**
**Cyllid Cyfalaf a Ragwelir fydd ar gael ar gyfer 2020/21**

| Ffynhonnell y Cyllid | £'m | £'m |
|---|---|---|
| **Rhaglen Cyllid Cyfalaf Cyffredinol** | | |
| Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 3.219 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2.165 | |
| Benthyca â Chefnogaeth (yn cynnwys y cyllid na ddefnyddiwyd yn 2019/20) | 2.364 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0.828 | |
| Arian Cyfalaf Wrth Gefn | 0.500 | |
| TAW Hamdden wrth gefn | 0.750 | |
| Grantiau Allanol a Chyfraniadau | 2.232 | |
| **Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa'r Cyngor)** | | **12.058** |
| **Ysgolion 21ain Ganrif** | | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.680 | |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 3.679 | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 2.680 | |
| **Cyllid yr Ysgolion 21ain Ganrif** | | **9.039** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | |
| Arian wrth gefn yn y CRT | 5.240 | |
| CRT – Gwarged yn ystod y flwyddyn | 8.988 | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru | 2.660 | |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 0.250 | |
| **Cyllid ar gyfer CRT** | | **17.138** |
| | | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2020/21** | | **38.235** |

**3.2.** Mae gwerth y derbyniadau cyfalaf sydd wedi'u hadnabod yn cynnwys swm a amcangyfrifir i fod yn £550k o ganlyniad i werthiant posibl y Cwrs Golff ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi dynodi y dylid defnyddio unrhyw dderbyniadau cyfalaf o ganlyniad i werthu'r Cwrs Golff er mwyn cyllido gwelliannau i gyfleusterau hamdden eraill. Mae hefyd yn cynnwys £100k o werthiannau mân-ddaliadau, sydd eisoes wedi'i glustnodi ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau presennol.

**3.3.** Mae £500k wedi'i neilltuo o'r Arian Cyfalaf wrth gefn, a fyddai'n gadael balans rhagdybiedig o £640k sydd ar gael i gyllido unrhyw waith cyfalaf argyfwng a allai godi yn ystod y flwyddyn neu er mwyn darparu cyllid cyfatebol petai cynnig o gyllid grant sylweddol yn cael ei dderbyn yn ystod y flwyddyn a fyddai'n ddibynnol ar swm bach o gyllid cyfatebol.

**3.4.** Mae cyllid y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau CRT yn unig ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw brosiectau eraill. Mae'r cynllun yn caniatáu ar gyfer defnyddio £5.24m yn ystod 2020/21, gan adael £1m fel yr arian wrth gefn parhaus. Mae hyn yn unol â Chynllun Busnes y CRT sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor eisoes.

## 4. RHAGLEN CYFALAF DRAFFT (Cynlluniau Ymrwymedig)

### 4.1. Cynlluniau 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen

Ni fydd y cynlluniau canlynol yn cael eu cwblhau yn 2019/20 a byddant yn cael eu cario ymlaen i 2020/21.

**Tabl 2**

**Cynlluniau 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen**

| Cynlluniau 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Safle Sipsiwn a Theithwyr – Star | 670 | - | - |
| Porth Twristiaeth | 1,345 | - | - |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 379 | - | - |
| Adfywio Caergybi (Cyfnod II y Fenter Treflun Treftadaeth) | 900 | 1,500 | 460 |
| **Cyfanswm Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen** | **3,294** | **1,500** | **460** |

**4.1.1** Safle Sipsiwn a Theithwyr Dros Dro yn Star - Yn dilyn prynu'r safle a'r costau dylunio cychwynnol, mae £670k o'r gyllideb a neilltuwyd yn parhau i fod ar ôl ac ni chaiff ei wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r fanyleb derfynol ar gyfer y cynllun yn cael ei llunio ar hyn o bryd a bydd y broses dendro yn cychwyn yn gynnar yn 2020.

**4.1.2** Porth Twristiaeth - Cynllun a gyllidir gan yr UE yw hwn ac ni fydd angen cyllid ychwanegol gan y Cyngor yn 2020/21.

**4.1.3** Isadeiledd Strategol Caergybi - Cynllun yw hwn a gyllidir o dan gytundeb Cyd-Fenter rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru i godi adeiladau busnes newydd gyda chyllid grant allanol ychwanegol. Ni fydd angen cyllid ychwanegol gan y Cyngor yn 2020/21 i gwblhau'r cynllun.

**4.1.4** Adfywio Caergybi (Cyfnod II y Fenter Treflun Treftadaeth) - Bydd £825k o'r £900k sydd ei angen yn cael ei gyllido trwy grant o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ond bydd angen cyllid cyfatebol ychwanegol o £75k. O ystyried lefel y grant o'i gymharu â chyfraniad y Cyngor, argymhellir cynnwys y cynllun hwn yn rhaglen gyfalaf 2020/21.

**4.2 Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol**

**4.2.1** Neilltuir symiau bob blwyddyn yn y rhaglen gyfalaf i gynnal, uwchraddio neu amnewid ein hasedau presennol. Mae'r symiau a neilltuwyd wedi cael eu hadolygu gan y Tîm Cyllid mewn ymgynghoriad â'r gwasanaeth perthnasol ac argymhellir y symiau canlynol ar gyfer 2020/21: -

- **Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA)** – Yn y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd £750k ac ychwanegwyd at y swm hwn yn 2018/19 a 2019/20 trwy ddefnyddio grantiau o'r Gronfa Gofal Canolraddol. Mae'r Gwasanaeth Tai, sy'n gyfrifol am ddyfarnu'r grantiau hyn, wedi nodi y bydd £600k yn ddigon o gyllid ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, fel rhan o gynigion y Gyllideb Refeniw, bydd y cost o gyflawni gwaith dan y grantiau hyn hefyd yn cael ei chyfalafu, gyda £36k yn cael ei drosglwyddo o'r gyllideb refeniw i'r gyllideb gyfalaf. Mae hyn yn dod â'r cyfanswm i £636k. Bydd angen codi'r cyllid yn ôl i £750k o 2021/22 ymlaen.

- **Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysg** – dyrannwyd £300k i dalu cost yr addasiadau hyn mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r Gwasanaethau Eiddo wedi nodi bod angen gwario £978k mewn 5 ysgol uwchradd ac maent wedi rhaglennu'r gwaith hwn i ddigwydd dros y 3 blynedd nesaf. O ganlyniad, argymhellir neilltuo £300k eto ar gyfer 2020/21.

- **Adnewyddu Ysgolion** - Mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw y mae angen ei wneud yn yr ysgolion yn sylweddol ac ni ellir ei gyllido yn y tymor byr i'r tymor canol. Mae'r Tîm Gwasanaethau Eiddo wedi nodi'r gwaith y mae'r mwyaf o frys amdano er mwyn defnyddio'r dyraniad arferol o £1m.

- **Adnewyddu Adeiladau heblaw Ysgolion** - Unwaith eto, mae ôl-groniad o waith y mae angen ei wneud yn swyddfeydd y Cyngor, cartrefi preswyl, cyfleusterau gofal dydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ac nid oes digon o gyllid i wneud yr holl waith hwn mewn un flwyddyn. Neilltuwyd £600k yn y flwyddyn flaenorol a bydd y lefel hon o gyllid yn ddigon i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith blaenoriaeth y mae angen ei wneud. Gallai hwn fod yn faes posib y gallai'r Cyngor fanteisio arno ar gyfer cael grantiau amgylcheddol a lleihau carbon newydd yn ystod y flwyddyn.

- **Ail wynebu Priffyrdd** – Mae'r gwasanaeth priffyrdd wedi asesu bod angen gwario o leiaf £2.2m ar briffyrdd y Cyngor er mwyn cynnal y safon gyfredol. Byddai uwchraddio holl ffyrdd y Cyngor i gwrdd â'r safon eto yn golygu buddsoddiad o rhwng £15m a £30m. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £20m i gynorthwyo Cynghorau gyda rhaglen adnewyddu Priffyrdd. Cyfran Ynys Môn o'r cyllid grant hwn ar gyfer 2020/21 yw £599k, sy'n gadael £1.25m i'w gyllido o gyllid cyfalaf craidd y Cyngor.

- **Cerbydau** - Mae swm o £150k wedi'i neilltuo mewn blynyddoedd blaenorol i ganiatáu ar gyfer prynu cerbydau newydd yn lle'r rheini sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac i brynu cerbydau mwy effeithlon o ran tanwydd / carbon niwtral e.e. ceir trydan. Fodd bynnag, yn ychwanegol at brynu cerbydau newydd yn lle hen rai fel mater o drefn, mae 2 set o gerbydau yn cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol ac mae angen eu newid, sef lorïau graeanu a bysus mini Cludiant Cymunedol Môn. Yn y ddau achos, mae'r costau trwsio yn cynyddu ac mae risg gynyddol na fydd cerbydau ar gael pan fyddir eu hangen. Argymhellir newid y cerbydau dros y 3 blynedd nesaf, gan neilltuo £300k ar gyfer prynu cerbydau graeanu newydd bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf. Mae'r Rheolwr Fflyd yn bwriadu prynu 2 fws mini newydd ar gyfer Cludiant Cymunedol Môn yn 2020/21, gan gyllido un o'r £150k a neilltuwyd ar gyfer prynu cerbydau newydd, gyda £30k ychwanegol yn cael ei neilltuo yn 2020/21.

- **Asedau TG -** Mae angen buddsoddiad parhaus i gynnal isadeiledd craidd y Cyngor ac i gael dyfeisiau newydd i staff gael mynediad at systemau. Nodwyd y bydd angen £171k i gynnal yr isadeiledd craidd a bod angen £121k ar gyfer dyfeisiau bwrdd gwaith. Mewn blynyddoedd blaenorol, cyllidwyd costau trwyddedu o gyllid cyfalaf ond, gan fod y pwysau ar y gyllideb refeniw wedi lleddfu rhywfaint, trosglwyddwyd y costau hyn i'r gyllideb refeniw sy'n rhyddhau rhywfaint o gyllid cyfalaf.

**4.2.2** Mae crynodeb yn Nhabl 3 isod yn dangos y cyllid craidd uchod yr argymhellir ei neilltuo :-

**Tabl 3**

**Cyllid sy'n cael ei argymell ar gyfer Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol 2020/21 – 2022/23**

| Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 636 | 750 | 750 |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysg | 300 | 300 | 300 |
| Adnewyddu Ysgolion | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| Adnewyddu adeiladau heblaw ysgolion | 600 | 600 | 600 |
| Ailwynebu priffyrdd (£599k wedi'i gyllido o Grant Llywodraeth Cymru) | 1,850 | 1,850 | 1,850 |
| Cerbydau | 480 | 480 | 480 |
| Asedau TG | 292 | 292 | 292 |
| **Cyfanswm** | **5,158** | **5,272** | **5,272** |

**4.2.3** Cyfanswm y Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21 yw £4.324m. Ychydig o gynnydd a fu yn y dyraniad cyfalaf cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ers nifer o flynyddoedd wrth i gyllid cyfalaf ychwanegol gael ei gyfeirio at brosiectau penodol e.e. Ysgolion yr 21ain Ganrif. Os bydd y lefel hon o gyllid yn parhau yn 2021/22 a thu hwnt i hynny, bydd rhaglen gyfalaf y Cyngor naill ai wedi ei chyfyngu i atgyweirio ac amnewid yr asedau cyfredol neu bydd yn rhaid lleihau'r dyraniadau a ddangosir uchod er mwyn rhyddhau cyllid i gwrdd ag ymrwymiadau eraill.

## 5. BIDIAU ERAILL AM GYLLID YCHWANEGOL

**5.1.** Gofynnwyd i'r gwasanaethau gyflwyno bidiau am gyllid cyfalaf. Aseswyd y bidiau hyn gan y Tîm Cyllid, gan ddefnyddio'r mecanwaith sgorio a nodwyd yn y Strategaeth Gyfalaf, ac yna cawsant eu rhoi yn nhrefn eu blaenoriaeth gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ac eithrio'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Cyfrif Refeniw Tai, y gronfa TAW wrth gefn hamdden, unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu'r cwrs golff (os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu symud ymlaen i wneud hynny) a mân-ddaliadau, cyfanswm y cyllid craidd cyffredinol a oedd ar gael i'r Cyngor ar gyfer 2020/21 oedd £5.207m, a dyrennir £4.634m ohono uchod (Tabl 2 & 3), gan adael £0.573m i gyllido unrhyw brosiectau newydd yn 2020/21.

**5.2.** Ar ôl sgorio'r prosiectau (yn unol â'r fethodoleg a nodir ym mharagraff 2.4) ac yn dilyn yr adolygiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, argymhellir cynnwys y prosiectau canlynol yn rhaglen gyfalaf 2020/21 (gweler Tabl 4 isod):-

**Tabl 4**

**Prosiectau Cyfalaf Untro yr argymhellir eu cyllido yn 2020/21**

| Teitl y Prosiect | Disgrifiad | Swm sy'n cael ei argymell £'000 | Cyllid Craidd £'000 | Grant Allanol £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Prosiectau Llesiant Amgylcheddol a Datblygu Economaidd | Datblygiad Prosiect a chyllid cyfatebol i gael ei ddefnyddio fel y bydd nawdd grant yn dod ar gael. | 95 | 95 | 0 |
| Llithrfa Porth y Wrach | Gosod camerâu adnabod cerbydau / TCC ar y llithrfa er mwyn monitro iechyd a diogelwch ac er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o gasglu ffioedd lansio. | 30 | 30 | 0 |
| Plas Mona | Er mwyn uwchraddio cyfleusterau yn y Cartref Preswyl. | 80 | 80 | 0 |
| Cronfa Gwella Cyfleusterau Hamdden | Darparu cyllid cychwynnol er mwyn dechrau gweithrediad y "Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden Cenedlaethau'r Dyfodol." Caiff y cynllun ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn y man a bydd yn nodi'r union brosiectau i'w datblygu yn defnyddio'r cyllid hwn ac unrhyw grantiau allanol posibl y gall y Cyngor eu sicrhau. | 250 | 250 | 0 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd | Cyllido'r gwaith dylunio cynlluniau mawr a darparu cyllid cyfatebol (15%) er mwyn denu cyllid grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau llai. Byddai grant Llywodraeth Cymru yn dod i gyfanswm o £487k. | 573 | 86 | 487 |
| Partneriaeth Tirlun Caergybi | Caiff hyn ei gyllido'n llawn gan grantiau allanol. | 1,146 | 0 | 1,146 |
| **CYFANSWM Y CYLLID SY'N CAEL EI ARGYMELL I'W DDYRANNU YN YSTOD 2020/21** | | **2,174** | **541** | **1,633** |

**5.3.** Mae'r Cyngor wedi nodi'r angen am waith lliniaru llifogydd mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys Porthaethwy, Llanfairpwll, Traeth Coch, y Fali, Amlwch a Chaergybi. Amcangyfrifir y bydd y cynlluniau hyn yn costio cyfanswm o rhwng £10m a £12m. Hyd yn oed gyda chyllid grant o 85% gan Lywodraeth Cymru, byddai'n rhaid i'r Cyngor ddyrannu cyllid cyfalaf craidd ar raddfa sylweddol i gwblhau'r cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd nid yw'r cyllid hwnnw ar gael, fodd bynnag, bydd y swm a neilltuir uchod yn golygu y gellir dylunio'r prosiectau fel eu bod barod i'w gweithredu pan ddaw cyllid ar gael.

**5.4.** Nododd y broses o gyflwyno bidiau nifer o brosiectau nad oes angen cyllid arnynt yn 2020/21 ond y gellid bod angen eu cyllido yn 2021/22 neu wedi hynny. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: -

- TGCh mewn Ysgolion - Bydd y Cyngor yn derbyn cyllid grant i uwchraddio cyfleusterau TG mewn ysgolion ond mae'r grant yn amodol ar i'r Cyngor ymrwymo i adnewyddu ac uwchraddio'r cyfleusterau hyn yn y dyfodol. Bydd hynny'n golygu y bydd raid rhyddhau o gwmpas £2m pum mlynedd o rŵan. Trwy roi swm i un ochr bob blwyddyn, e.e. £ 500k y flwyddyn, mae modd adeiladu cronfa wrth gefn a fydd ar gael i gyllido'r costau amnewid yn y dyfodol.
- Cynllun lliniaru llifogydd ar y B5109 yn Fryars Bay. Gan nad oes unrhyw eiddo mewn perygl o lifogydd yn yr ardal hon, nid yw'r cynllun yn denu cyllid grant gan Lywodraeth Cymru o dan ei chynllun cyfredol. Os daw cyllid grant ar gael, efallai y bydd angen i'r Cyngor ystyried rhyddhau cyllid cyfatebol er mwyn cwblhau'r gwaith lliniaru.
- Mae darparu gwasanaethau dydd yn y maes anableddau dysgu yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Gall canlyniad yr adolygiad hwnnw argymell gwneud buddsoddiad cyfalaf mewn un ganolfan neu mewn mwy nag un, a hynny er mwyn moderneiddio'r gwasanaeth. Nid yw'n glir ar hyn o bryd faint o gyllid cyfalaf fyddai ei angen ond mae'n debygol o fod yn swm sylweddol.
- Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cynhyrchu cynllun "Datblygu Cyfleusterau Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol", gyda'r bwriad o nodi'r hyn fydd ei angen i gynnal a gwella'r cyfleusterau hamdden yn nhair prif ganolfan hamdden y Cyngor a lleoliadau allweddol eraill. Mae tua £750k mewn cronfa wrth gefn hamdden benodol a gellid cynyddu'r cyllid sydd ar gael trwy werthu'r cwrs golff o bosib, os bydd y Cyngor yn dod i'r casgliad hwnnw. Fodd bynnag, mae angen llawer mwy o gyllid na hynny a bydd angen cyllid allanol ychwanegol i'w weithredu. Byddai angen cymorth cyllid grant allanol hefyd ar gyfer unrhyw fuddsoddiad ychwanegol i baratoi ar gyfer Gemau'r Ynysoedd.
- Mae offer y cynllun band llydan 'Cyswllt Môn' yn agos at ddiwedd ei oes ddefnyddiol ac, er mwyn cynnal y cysylltiadau â'r sefydliadau a wasanaethir ganddo ar hyn o bryd, bydd angen newid yr offer neu drosglwyddo'r cysylltiadau i Rwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA). Amcangyfrifir y bydd angen £180k dros gyfnod o 3 blynedd i gwblhau'r trosglwyddiad. Fodd bynnag, byddai symud i ffwrdd o gynllun band eang Cyswllt Môn yn golygu y gellid gwerthu'r mastiau a byddai hynny'n cynhyrchu derbyniadau cyfalaf.
- Mae'r Cyngor wedi buddsoddi symiau dros y blynyddoedd diwethaf i foderneiddio ei brosesau busnes trwy fuddsoddi mewn systemau swyddfa gefn a gweithredu'r system Rheoli Perthynas Cwsmer (CRM). Y cam nesaf yw dechrau datblygu systemau ymateb awtomataidd i ddelio ag ymholiadau gan gwsmeriaid (ChatBots). Er nad yw'r Cyngor mewn sefyllfa i weithredu'r dechnoleg ar hyn o bryd, nodwyd yr angen i fuddsoddi mewn technoleg o'r fath fel cais cyfalaf i'r dyfodol.
- Er mwyn ymestyn yr ardaloedd lle byddai modd cynhyrchu ffioedd o barcio ceir neu i foderneiddio'r ffordd y mae modurwyr yn talu ffioedd parcio, bydd angen cynyddu nifer y peiriannau talu ac arddangos a/neu gael rhai newydd. Bydd angen buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol felly.
- Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth gorfforaethol i wella perfformiad amgylcheddol a lleihau allyriadau carbon. Er bod nifer o'r gweithgareddau cyfredol neu'r weithgareddau sydd yn yr arfaeth wedi cael eu cyllido, disgwylir y bydd angen i'r Cyngor ddyrannu cyllid cyfalaf a refeniw ychwanegol yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn chwarae ei ran yn llawn.

**5.5. Mân Ddaliadau**

Cafwyd dau gais ar gyfer uwchraddio 2 o fân-ddaliadau ar gost gyfunol o £160k. O ystyried y cyllid cyfyngedig sydd ar gael, fe argymhellir bod unrhyw waith o uwchraddio mân-ddaliadau yn cael ei gyllido o unrhyw dderbyniadau cyfalaf sy'n cael eu creu drwy werthu tir neu adeiladau neu o'r swm sydd wedi'i glustnodi ar gyfer gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y gyllideb refeniw. Disgwylir y bydd derbyniadau cyfalaf o £100k yn cael eu derbyn yn 2020/21.

## 6. YSGOLION YR 21AIN GANRIF

**6.1.** O ganlyniad i'r cyllid sylweddol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynlluniau a'r angen i foderneiddio'r stad ysgolion bresennol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido'r cynlluniau hyn drwy'r defnydd o fenthyca di-gefnogaeth a'r derbyniadau cyfalaf o werthu hen safleoedd yr ysgolion. Mae Rhaglen Gyfalaf 2020/21 y caniatáu ar gyfer cwblhau prosiectau Band A a chychwyn prosiectau Band B. Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith fydd pa prosiectau i ymgymryd â nhw a phryd y byddant yn dechrau.

**6.2.** Y gost a amcangyfrifir ar gyfer y rhaglen yn 2020/21 yw £9.039m (net o unrhyw dderbyniadau cyfalaf) a chaiff ei gyllido £2.68m drwy grant Llywodraeth Cymru, £2.68m o fenthyca â chefnogaeth a £3.679m o fenthyca di-gefnogaeth.

## 7. CYFRIF REFENIW TAI

**7.1.** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi o ran gwariant refeniw a chyfalaf. Bydd y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2020/21 yn gweld buddsoddiad parhaus yn y stoc dai bresennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth parhaus â'r safonau SATC, gyda £6.645m miliwn yn cael ei fuddsoddi. Bydd £10.493m pellach yn cael ei wario ar ddatblygu eiddo newydd ac mewn prynu eiddo hawl i brynu yn ôl.

**7.2.** Caiff y rhaglen ei gyllido drwy: Arian Wrth Gefn y CRT (£5.24m), gwarged y refeniw a grëwyd yn 2020/21 (£8.988m), grantiau Llywodraeth Cymru (£2.66m) a benthyca di-gefnogaeth newydd (£0.25m).

## 8. CRYNODEB O'R RHAGLEN GYFALAF SY'N CAEL EI HARGYMELL AR GYFER 2020/21

**8.1.** Mae'r rhaglen gyfalaf sy'n cael ei argymell ar gyfer 2020/21 yn cael ei chrynhoi yn Nhabl 5 isod ac yn cael ei ddadansoddi mewn mwy o fanylder yn Atodiad 2.

**Tabl 5**

**Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf sy'n cael ei argymell ar gyfer 2020/21**

| | Cyf | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen | Para 4.1 a Tabl 2 | 3,294 |
| Adnewyddu / Amnewid Asedau | Para 4.2.2 a Tabl 3 | 5,158 |
| Prosiectau Cyfalaf Newydd Untro | Para 5.2 a Tabl 4 | 2,174 |
| Mân Ddaliadau a gyllidwyd o dderbyniadau cyfalaf | Para 5.7 | 100 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | Para 6 | 9,039 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 17,138 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2020/21** | | **36,903** |
| **Cyllidir drwy:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,165 |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | | 2,364 |
| Derbyniadau Cyfalaf | | 245 |
| Arian Cyfalaf Wrth Gefn | | 500 |
| Benthyca â Chefnogaeth - Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 2,680 |
| Benthyca Di-gefnogaeth - Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 3,679 |
| Arian Wrth Gefn CRT a'r Gwarged yn y flwyddyn | | 14,228 |
| Benthyca Di-gefnogaeth CRT | | 250 |
| Grantiau Allanol | | 7,572 |
| Cyllid 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen | | 3,219 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2020/21** | | **36,903** |

**8.2.** Mae cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer 2020/21, fel y nodir yn Nhabl 1, yn £38.235m. Argymhellir y dylid defnyddio £36.903m, gan adael balans o £1.332m heb ei ddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys arian wrth gefn TAW Hamdden £750k, amcangyfrif £550k o dderbyniadau cyfalaf o werthiant posibl Cwrs Golff Llangefni a £32k o dderbyniadau cyfalaf heb eu dyrannu.

Argymhellir fod yr arian wrth gefn TAW Hamdden ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf posibl o werthiant arfaethedig y cwrs golff yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith pan gyflwynir y Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol i'r Pwyllgor Gwaith. Bod y £32k sy'n weddill yn cael ei gario drosodd fel cyllid i'w ddefnyddio yn 2021/22.

**Atodiad 2**

## Cynllun Cyfalaf Arfaethedig 2020/21

| Enw'r Cynllun | Cyllideb 2020/21 £ | Cyllidir Gan | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2019/20 D/Y | Grant Cyfalaf Cyffredinol | Benthyca gyda Chefnogaeth | Derbyniadau Cyfalaf | Arian Wrth Gefn Cyfalaf | Benthyca Di-Gefnogaeth | Grantiau Allanol | Arian Wrth Gefn | Cyfanswm Cyllid |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cynlluniau 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen** | | | | | | | | | | |
| Safle Sipsiwn a Theithwyr – Star | 670 | 670 | | | | | | | | 670 |
| Porth Twristiaeth | 1,345 | 1,345 | | | | | | | | 1,345 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 379 | 379 | | | | | | | | 379 |
| Adfywio Caergybi (Cyfnod II y Fenter Treflun Treftadaeth) | 900 | 825 | | | 75 | | | | | 900 |
| **Cyfanswm Cynlluniau 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen** | **3,294** | **3,219** | **-** | **-** | **75** | **-** | **-** | **-** | **-** | **3,294** |
| | | | | | | | | | | |
| **Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol – Adeiladau, Cerbydau, TG & Priffyrdd** | | | | | | | | | | |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 636 | | 636 | | | | | | | 636 |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysg | 300 | | | 300 | | | | | | 300 |
| Adnewyddu Ysgolion | 1,000 | | | 1,000 | | | | | | 1,000 |
| Adnewyddu Adeiladau Heblaw Ysgolion | 600 | | | 379 | 71 | 150 | | | | 600 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,850 | | 726 | 524 | | 1 | | 599 | | 1,850 |
| Prynu Cerbydau Newydd | 480 | | 480 | | | | | | | 480 |
| Uwchraddio / Newid offer TG | 292 | | 292 | | | | | | | 292 |
| **Cyfanswm Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol** | **5,158** | **-** | **2,134** | **2,203** | **71** | **151** | **-** | **599** | **-** | **5,158** |
| | | | | | | | | | | |
| **Prosiectau Cyfalaf Newydd 2020/21** | | | | | | | | | | |
| Prosiectau Llesiant Amgylcheddol a Datblygiad Economaidd | 95 | | | 95 | | | | | | 95 |
| Llithrfa Porth Wrach – Camerâu Gorfodi | 30 | | | 30 | | | | | | 30 |
| Adnewyddu Cartref Preswyl Plas Mona | 80 | | 31 | 36 | | 13 | | | | 80 |
| Cyllid Cyfatebol ar gyfer Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | 573 | | | | | 86 | | 487 | | 573 |
| Gwelliannau Hamdden | 250 | | | | | 250 | | | | 250 |
| Adnewyddu Mân-ddaliadau | 100 | | | | 100 | | | | | 100 |
| Partneriaeth Tirlun Caergybi | 1,146 | | | | | | | 1,146 | | 1,146 |
| **Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Newydd 2020/21** | **2,274** | **-** | **31** | **161** | **100** | **349** | **-** | **1,633** | **-** | **2,274** |

| Enw'r Cynllun | Cyllideb 2020/21 £ | Cyllidir Gan | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2019/20 D/Y | Grant Cyfalaf Cyffredinol | Benthyca gyda Chefnogaeth | Derbyniadau Cyfalaf | Arian Wrth Gefn Cyfalaf | Benthyca Di-Gefnogaeth | Grantiau Allanol | Arian Wrth Gefn | Cyfanswm Cyllid |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | | | | | | | | |
| **Ysgolion 21ain Canrif / Moderneiddio Ysgolion** | | | | | | | | | | |
| Cwblhau Rhaglen Band A | 5,297 | | | 1,355 | | | 2,587 | 1,355 | | 5,297 |
| Cychwyn Rhaglen Band B | 3,742 | | | 1,325 | | | 1,092 | 1,325 | | 3,742 |
| **Cyfanswm Ysgolion 21ain Ganrif / Moderneiddio Ysgolion** | **9,039** | **-** | **-** | **2,680** | **-** | **-** | **3,679** | **2,680** | | **9,039** |
| | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM GRONFA CYFFREDINOL** | **19,765** | **3,219** | **2,165** | **5,044** | **246** | **500** | **3,679** | **4,912** | **-** | **19,765** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | | | | |
| Gwaith Cynnal a Chadw Cynlluniedig a Gwelliannau SATC | 6,645 | | | | | | | 2,660 | 3,985 | 6,645 |
| Datblygiadau Newydd ac Ail-Brynu Eiddo Hawl i Brynu | 10,493 | | | | | | 250 | | 10,243 | 10,493 |
| **Cyfanswm Cyfrif Refeniw Tai** | **17,138** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **250** | **2,660** | **14,228** | **17,138** |
| | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM CYNLLUN CYFALAF 2020/21** | **36,903** | **3,219** | **2,165** | **5,044** | **246** | **500** | **3,929** | **7,572** | **14,228** | **36,903** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **13 Ionawr, 2020** |
| **Pwnc:** | **Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad cynnydd ar waith y Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio :** | **Cyng Robin Wyn Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Adnoddau / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## 1 – Argymhellion

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid, o ran cyflawni ei raglen waith a mesur effaith a gwerth ychwanegol
- Mae'n ymddangos bod prosesau sy'n ymwneud â monitro'r gyllideb ar gyfer 2019/20 yn addas i'r diben ac ar y trywydd iawn
- Y rhaglen ddatblygu sgriwtini ariannol parhaus ar gyfer aelodau'r Panel ac sy'n cael ei darparu gan CIPFA Cymru

**A2** Uwchgyfeirio'r materion canlynol i'w hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

- Mynegi pryder parhaus ynghylch y pwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau hynny a arweinir gan y galw amdanynt (sef gwasanaethau cymdeithasol ac addysg). Hefyd, nodi bod y Panel yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos a bod ganddo drefniadau ar waith i sicrhau deialog reolaidd gyda Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth i egluro'r sefyllfa ariannol yn y ddau wasanaeth ac effaith y mesurau lliniaru sydd ar waith i reoli gorwariant. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd y Panel yn parhau i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei ganfyddiadau wrth i'r sefyllfa esblygu.
- Rhoi trefniadau ar waith i adrodd i'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Gwaith bob tri mis ar y cynnydd a wnaed gan y Panel wrth weithredu'r flaen raglen waith. Cyflwyno trefniadau adrodd yn amlach os oes risg benodol i fynd i'r afael â hi.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Cyswllt uniongyrchol rhwng Cynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol. Bydd ystyriaeth y Panel o faterion cyllidebol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor yn ymateb yn gadarn ar faterion ariannol a bod camau ar waith i liniaru unrhyw risgiau.

## 3 Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:

1. A oes gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau ar flaenoriaeth y ffrydiau gwaith yn rhaglen waith y Panel?
2. A yw gweithredoedd y Panel hyd yn hyn yn ddigon cadarn?
3. A oes gan y Pwyllgor sylwadau ar gyflymder neu ansawdd y datblygiadau diweddar o ran y sgriwtini ariannol dan arweiniad y Panel?
4. Sut gellid cryfhau gwaith y Panel ymhellach?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CEFNDIR

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Sgriwtini wedi datblygu dros y 2 flynedd ddiwethaf trwy waith 3 phanel sgriwtni. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran y **Panel Sgriwtini Cyllid.**

**Trefniadau Llywodraethu'r Panel**

Bydd yr aelodau hefyd yn ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd ar waith fel sail ar gyfer gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid[1] a bwriedir parhau i gynnull cyfarfodydd rheolaidd o'r Panel, yn unol â'r amserlen ar gyfer monitro'r gyllideb gan y Pwyllgor Gwaith a phroses flynyddol yr Awdurdod ar gyfer gosod y gyllideb. Mae proses ar waith i'r Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel adrodd i'r Pwyllgor hwn.

**Aelodaeth**

Cyfeiriwyd mater aelodaeth y Panel Sgriwtini Cyllid i sylw'r pwyllgorau sgriwtini'n gynharach eleni[2] yng ngoleuni trafodaethau gan y Panel. Cynhaliodd y Panel hunanarfarniad ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn adolygu, dysgu a myfyrio ar y siwrnai ddatblygu hyd yn hyn ac argymhellwyd cael dau aelod arall ar y Panel - un o bob un o'r pwyllgorau sgriwtini. Crynhoir aelodaeth gyfredol y Panel isod:

| Cynghorydd | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Hydref, 2017

[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Mehefin, 2019 a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2019

| | |
|---|---|
| John Griffith | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| Aled Morris Jones | |
| Dylan Rees | |
| | |
| Glyn Haynes | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| Alun Roberts | |
| Dafydd Roberts | |
| | |
| Robin Williams Aelod Portffolio (Adnoddau) | Sylwedydd |

**2. FFOCWS GWAITH Y PANEL SGRIWTINI CYLLID**

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Panel dros y 12 mis diwethaf hyd at fis Rhagfyr, 2019:

- **Materion llywodraethu** - mae trefniadau llywodraethu clir yn parhau i fod ar waith (gan gynnwys cylch gorchwyl) ynghyd â rhaglen waith sy'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith y Panel. Mae CIPFA Cymru wedi cadarnhau'r farn hon. Ailystyrir manylion y trefniadau hyn fel rhan o adolygiad ehangach o'n gweithdrefnau a'n dogfennaeth Sgriwtini.

  Rhoddodd y Panel sylw i'r materion llywodraethu isod ym Medi, 2019[3]
  1. Amlder adrodd yn ôl i'r rhiant bwyllgor gan y Panel - cadarnhawyd y dylai trefniadau fod ar waith i adrodd i'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Gwaith bob 3 mis ar gynnydd rhaglenni gwaith y Panel. Cyflwyno trefniadau adrodd yn amlach os oes risg benodol i fynd i'r afael â hi.
  2. Argymell trefniadau llywodraethu ychwanegol a fyddai'n galluogi'r Panel i adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Gwaith ar faterion penodol o'r rhaglen waith.
  3. Rhaeadru gwybodaeth am rôl, cyfraniad a chanlyniadau'r Panel i holl Aelodau'r Cyngor.

- **Mewnbwn allanol, arbenigol** – ar gais aelodau'r Panel, hwylusir mewnbwn allanol, arbenigol gan CIPFA Cymru i'n cynorthwyo i werthuso a thystiolaethu effaith a gwerth ychwanegol gwaith y Panel. Mae'r mewnbwn gan CIPFA Cymru hefyd wedi cynnwys gwaith datblygu a mentora pwrpasol ynghylch sgriwtini ariannol ym mhob cyfarfod. Bydd CIPFA yn dychwelyd i'r Awdurdod yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn cynorthwyo'r Panel i fesur y pellter a deithiwyd o ran datblygu sgriwtini cyllid dan arweiniad Aelodau. Mae'r Panel hefyd wedi cytuno i rannu canlyniadau'r llif gwaith hwn er mwyn datblygu arfer dda ar lefel genedlaethol.

  Mae'r mewnbwn arbenigol hwn i waith y Panel wedi darparu sylfaen gadarn i alluogi a chefnogi datblygiad sgriwtini ariannol effeithiol yn yr Awdurdod ac wedi gwneud ein harferion a'n prosesau sgriwtini'n fwy gwydn.

- **Monitro'r Gyllideb yn chwarterol** – mae'r Panel wedi parhau i graffu ar y negeseuon cychwynnol yn yr adroddiadau chwarterol ar fonitro'r gyllideb refeniw, cyn i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried. 'Roedd yr Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau yn bresennol ar gyfer y drafodaeth hon er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i aelodau'r Panel. Nododd aelodau'r panel y meysydd canlynol a oedd yn creu pwysau ariannol:

[3] Cyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2019.

- Gwasanaethau Oedolion – ar draws yr holl wasanaethau a arweinir gan y galw
- Gwasanaeth dysgu – cludiant ysgol
- Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo - Gwastraff (Parc Adfer) a Gwasanaethau Eiddo (cyfleusterau cyhoeddus; glanhau)

Mae'r Gwasanaethau Plant bellach yn adrodd bod eu sefyllfa ariannol wedi gwella.

- **Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Dysgu** - mae craffu ar y pwysau ariannol yn y ddau wasanaeth wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Panel ac ystyriwyd gwybodaeth bellach a gomisiynwyd gan Benaethiaid Gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r agweddau canlynol:
  - Meysydd sy'n creu pwysau yn y ddau wasanaeth:
    - I. Cludiant i'r ysgol
    - II. Gwasanaethau Oedolion – gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw

      **Cyn Chwarter 2: 2019/20**
    - III. Plant mewn gofal - y tu allan i'r sir, pecynnau preswyl, lleoliadau maethu annibynnol. (Nid oedd y cynnydd yn nifer y plant sy'n dod i ofal yr Awdurdod yn unigryw i Ynys Môn gan ei fod yn digwydd mewn awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr hefyd)
    - IV. Addysg i blant mewn lleoliadau y tu allan i'r sir

  - **Camau lliniaru**:
    - i. <u>Gwasanaethau Oedolion</u> – mwy o sgriwtini o becynnau gofal ac anfonebau cost uchel; sicrhau'r cyfraniad mwyaf posib gan y Bwrdd Iechyd tuag at anghenion gofal nyrsio; defnydd effeithiol o arian Pwysau'r Gaeaf (Llywodraeth Cymru); mireinio ymhellach ymateb y Gwasanaeth i ymholiadau cychwynnol am wasanaeth er mwyn rheoli'r galw, sicrhau cynnig cychwynnol priodol.
      <u>Risgiau</u>: galw cynyddol; cyllideb annigonol; mesurau lliniaru nad ydynt yn cael yr effaith a ddymunir ar bwysau cyllidebol.
    - ii. <u>Gwasanaethau Plant</u> – parhau i graffu ar gostau pecynnau gofal cyn cymeradwyo lleoliad; Panel Comisiynu ar y Cyd; Tîm Teuluoedd Gwydn; Swyddog Contractau ar y Cyd (Gwasanaethau Plant a Dysgu); "Cartrefi Grŵp Bach"; adolygu'r pecyn ar gyfer gofalwyr maeth; polisi cludiant newydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
      <u>Risg:</u> dim rheolaeth dros nifer y plant sy'n dod i ofal *(gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw)*
    - iii. <u>Gwasanaeth Dysgu</u> - roedd rhai o'r mesurau lliniaru a amlinellir uchod yn fentrau ar y cyd ar draws y ddau wasanaeth. Yn ogystal, system a phroses fwy effeithiol ar gyfer cludiant ysgol trwy'r system o'r enw "One"; herio pob cais am gludiant i'r ysgol yn erbyn y meini prawf; adolygu'r polisi cludiant ysgol
      <u>Risgiau:</u> mwy o alw; cyllideb annigonol

- **Y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd blwyddyn 2019/20**: yn seiliedig ar y rhagamcanion cyfredol, mae gorwariant sylweddol yn debygol yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Dysgu. Bydd maint y gorwariant yn dibynnu ar gyflymder ac effaith y mesurau lliniaru.

  **Mae'r Panel wedi gwahodd y ddau Bennaeth Gwasanaeth i'r Panel ym mis Mai, 2020 i gyflwyno diweddariad pellach ar effaith y mesurau lliniaru a roddwyd ar waith.**

- **Y broses gosod cyllideb flynyddol ar gyfer 2020/21** - yn unol â'r amserlen genedlaethol ar gyfer cyhoeddi'r Setliad Cyllidebol Cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Panel wedi diwygio ei raglen waith ac wedi archwilio cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod diwethaf[4]. Rhoddir adroddiad llafar yn y cyfarfod o'r Pwyllgor gan gadeirydd y Panel (Cyng Dafydd Roberts).

- **Effaith Ariannol y Polisïau Arfaethedig** - rhoddodd y Panel[5] ystyriaeth fanwl i'r polisïau / dogfennau drafft canlynol gyda'r bwriad o graffu ar gynnwys y ddogfen a mesur unrhyw effaith ariannol:
  - Y Polisi Corfforaethol ar gyfer Adennill Dyledion
  - Y Polisi Cludiant Ysgol
  - Y Cynllun Ariannol Tymor Canol

- **Strategaeth Cynhyrchu Incwm** - cafodd y Panel sgyrsiau yn ei gyfarfodydd ym mis Medi[6] a mis Tachwedd[7] i sgopio'r llif gwaith hwn. Wrth symud ymlaen, bwriedir cynnwys y strategaeth incwm ar y flaen raglen waith.

- **Y Rhaglen waith ac effaith sgriwtini** - mae'r Panel yn hunanwerthuso ei berfformiad ar ddiwedd pob cyfarfod fel mater o drefn. Mae'n ymddangos bod yr arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd ac effeithiolrwydd sgriwtini ariannol y Panel. Y canlyniad cyntaf oedd bod y Panel yn cydnabod yr angen i sicrhau mwy o aliniad rhwng cylchoedd cyllidebol y Cyngor a blaen raglen waith y Panel. Mae'r aliniad hwn bellach yn sail i raglen waith y Panel.

## 3. MESUR CANLYNIADAU AC EFFAITH Y PANEL

### 3.1 Cyd-destun

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae asesu effaith Sgriwtini Craffu yn her oherwydd nad yw canlyniadau gweithgareddau sgriwtini bob amser yn fesuradwy ac nid ydynt yn aml yn rhai sy'n hawdd eu mesur mewn ffordd systematig. Hefyd, nid yw'n hawdd mesur effeithiolrwydd gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau trwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, mae taith y Panel Sgriwtini Cyllid yn enghraifft o ble mae mewnbwn sgriwtini wedi ychwanegu gwerth ac wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi gweithredu cynigion.

[4] Cyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 9 Ionawr, 2020.
[5] Cyfarfod y Panelau Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 1 Mai a 25 Medi 2019
[6] Cyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2019
[7] Cyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd, 2019

3.2 **Panel Sgriwtini Cyllid**

Mae craffu ariannol gan Aelodau wedi aeddfedu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf o waelodlin isel. Ym mis Mehefin, 2019[8] cynhaliodd aelodau'r Panel hunanwerthusiad o'i effaith ac adolygodd 4 agwedd ar ei waith:

- Yr hyn a weithiodd yn dda
- Nodi pa effaith a gafodd y panel
- Meysydd i'w gwella
- Anghenion datblygu'r Aelodau

3.3 **Canlyniadau'r hunanarfarniad gan Aelodau'r Panel Sgriwtini Cyllid**

3.3.1 Defnyddiwyd y cwestiynau canlynol fel fframwaith i alluogi Aelodau i werthuso cyfraniad y Panel i drefniadau llywodraethu'r Cyngor:

**C1** O ran gwaith y Panel, beth oedd yr uchafbwyntiau i chi fel aelodau unigol o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

**C2** Yn eich barn chi, pa effaith a gafodd y Panel o ran craffu ar y gyllideb ac wrth herio a dwyn gwasanaethau i gyfrif?

**C3** A oes unrhyw agweddau ar waith y Panel y gellid eu gwella neu eu cyflawni'n fwy effeithiol wrth symud ymlaen?

**C4** Pa effaith a gafodd bod yn aelod o'r Panel arnoch chi fel unigolyn?

**C5** Pa anghenion datblygu sydd gennych i'ch cynorthwyo yn eich rôl?

**C6** Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad / neu effaith gwaith y Panel ar yr holl broses sgriwtini a'n prosesau gwneud penderfyniadau?

3.3.2 Mae'r llif gwaith hwn wedi dangos tystiolaeth o'r canlyniadau cadarnhaol a ganlyn:

- Tîm o Aelodau sydd wedi datblygu lefel uchel o wybodaeth am gymhlethdodau cyllid llywodraeth leol a lefel o arbenigedd yn y maes hwn
- Model o weithio sy'n canolbwyntio ar grŵp llai, gan annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Creu amodau sy'n ffafriol i Sgriwtini effeithiol e.e. bu gwelliant amlwg yn lefel a dyfnder y cwestiynu gan y Panel
- Gweithgaredd sgriwtini sydd wedi'i gynllunio'n dda, yn effeithlon ac yn wrthrychol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ystod o ffynonellau
- Gwell dealltwriaeth gan Aelodau Etholedig o'r cymhlethdodau a'r risgiau yng ngwasanaethau'r Cyngor er mwyn gallu craffu'n effeithiol, dwyn i gyfrif a nodi blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

3.3.3 Nododd aelodau'r Panel feysydd datblygu fel rhan o'r hunanarfarniad ac mae'r rhain wedi'u crynhoi o dan 6 thema allweddol:

- Gwybodaeth monitro cyllideb
- Comisiynu gwybodaeth o wasanaethau
- Alinio â blaenoriaethau strategol y Cyngor
- Trefniadau llywodraethu

[8] Cyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 6 Mehefin, 2019.

- Anghenion datblygu aelodau
- Mesur canlyniadau ac effaith sgriwtini

Mae'r themâu hyn wedi'u cynnwys ym mlaenaglen waith y Panel a pharheir i adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor hwn bob chwarter. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r hunanarfarniad hwn, penderfynodd yr Aelodau mai'r statws **DA** (MELYN) yw'r adlewyrchiad gorau o rôl y Panel Sgriwtini a'i gyfraniad i drefniadau llywodraethu'r Awdurdod.

Mae copi o'r adroddiad ar yr hunanarfarniad ynghlwm **(Atodiad 1).**

**4. MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO AM SYLW GAN Y RHIANT BWYLLGOR**

Uwchgyfeirir y mater isod i'w ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

4.1 Y pwysau sydd ar gyllidebau'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth dysgu ar hyn o bryd. Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddod i farn am gadernid gweithredoedd y Panel hyd yn hyn.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr elfennau canlynol o waith y Panel Sgriwtini Cyllid:<br>i. Monitro perfformiad cyllideb refeniw 2019/20<br>ii. Pwysau ar gyllidebau yn ystod 2019/20<br>iii. Y broses o osod cyllideb ar gyfer 2020/21<br>iv. Trefniadau llywodraethu a ffocws sgriwtini mewn paratoad ar gyfer proses gosod cyllideb 2020/21<br>v. Mesur canlyniadau ac effaith |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| Adroddiad ar hunanarfarniad y Panel Sgriwtini Cyllid (Atodiad 1) |
| **9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad os gwelwch yn dda am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cyng Dafydd Roberts**
**Cadeirydd y Panel Craffu Cyllid**
**Dyddiad: 03/01/20**

# MESUR EFFAITH SGRIWTINI

# HUNANWERTHUSIAD GAN AELODAU'R PANEL SGRIWTINI CYLLID

Gorffennaf, 2019

## MYNEGAI

1. Cefndir

2. Mesur Canlyniadau ac Effaith Sgriwtini

3. Y Dasg

4. Cwestiynau Hunanwerthuso

5. Casgliadau

6. Camau Nesaf


# 1. Cefndir

1.1 **Siwrnai Wella Sgriwtini yn Lleol**

Gwelwyd ein siwrnai wella lleol yn blaenoriaethu nifer o themâu allweddol dros y 18 mis diwethaf (ceir crynodeb ohonynt isod), er mwyn darparu fframwaith cadarn i:

i. Esbonio rôl a chyfraniad Sgriwtini i drefniadau llywodraethiant y Cyngor
ii. Nodi'r camau y mae angen eu cymryd yn y tymor byr a'r tymor canol er mwyn gwella Sgriwtini ymhellach.

**SIWRNAI WELLA SGRIWTINI: THEMÂU ALLWEDDOL**




1.2 **Rôl y Panel Sgriwtini Cyllid**

Sefydlwyd y Panel Sgriwtini Cyllid yn ystod yr Haf, 2017 fel is-banel o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, gyda'r amcanion canlynol:

- datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
- fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol
- fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

# 2. Mesur Canlyniadau ac Effaith Sgriwtini

2.1 **Y Cyd-destun**

Mae cael darlun o effaith Sgriwtini ac asesu'r effaith hwnnw yn her, gan nad yw canlyniadau gweithgareddau sgriwtini bob tro yn rhai gweledig, ac yn aml iawn nid oes modd eu mesur mewn ffordd systematig. Hefyd, nid yw'n hawdd mesur pa mor effeithiol yw gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau trwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau lleol lle mae mewnbwn sgriwtini wedi ychwanegu gwerth a/neu wedi dylanwadu ar y modd y cawsai cynigion eu gweithredu gan y Cyngor. Mae gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid yn enghraifft bositif yn y cyswllt hwn.

2.2 **Craffu Cyllidol**

Mae sgriwtini cyllidol wedi datblygu'n sylweddol o waelodlin isel yn ystod y 18 mis diwethaf, gyda mewnbwn ac arweiniad allanol gan CIPFA Cymru. Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid wedi mabwysiadu ymagwedd strategol tuag at graffu materion ariannol ac wedi datblygu strategaeth gwestiynu effeithiol i danategu eu gwaith. Er enghraifft, mae ymyraethau gan y Panel mewn ymateb i bwysau sylweddol ar y gyllideb wedi sbarduno rhai mesurau lliniaru cadarnhaol gan y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu.

Mae CIPFA Cymru'n parhau i weithio ochr yn ochr â'r Panel i ddatblygu ein siwrnai sgriwtini cyllid gyda'r amcanion canlynol mewn golwg:

- Ceisio arweiniad a chyngor proffesiynol, allanol mewn perthynas â sgriwtini cyllid
- Nodi arferion da fel meincnod lleol wrth i ni ddatblygu ein trefniadau
- Ffrind beirniadol

**Beth oedd gan CIPFA Cymru i'w ddweud am gyfraniad y Panel**

Rydym wedi derbyn adborth gan CIPFA ar 2 garreg filltir yn ystod ein siwrnai ddatblygu – ym mis Ebrill, 2018 (tra'n ysgrifennu'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini ar gyfer 2017/18) ac yn ail fel rhan o'r ymarferiad oedi ac adolygu gan y Panel ar ddiwedd 2018.

**Beth oedd gan CIPFA Cymru i'w ddweud**

**<u>Ebrill, 2018</u>**

***"Yn ystod yr amser y buom yn gweithio gyda'r Panel, bu newid amlwg yn y modd y mae'r Panel yn gweithredu. Bellach mae gan aelodau a'r swyddogion sy'n bresennol eglurder ynghylch eu rôl. Mae hyn wedi arwain at ddefnydd effeithiol o amser, mae strwythur gwell i'r rhaglen, mae'n cael ei rheoli yn well ac mae'r cwestiynu'n fwy treiddgar. Mae'r aelodau'n ystyried materion o sylfaen ariannol wybodus ac ehangach ac mae hynny'n amlwg o ansawdd a natur y cwestiynau a ofynnir. Mae'r cwestiynau a ofynnir ganddynt a'u hymagwedd yn dangos cynnydd yn eu hyder ynghyd â gwydnwch a phenderfyniad i gael ymatebion boddhaol mewn ffordd gytbwys a phenodol. Bydd datblygu blaen raglen waith a fydd yn cynnwys eitemau o'r calendr ariannol, materion sy'n esblygu a rhaglen o bynciau yn golygu bydd y Panel yn ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r broses sgriwtini dros amser. Mae bod â meddwl annibynnol a bod yn rhagweithiol o ran datblygu'r rhaglen waith yn ddatblygiad pwysig i'r Panel."***

**<u>Rhagfyr, 2018</u> <u>(Ymarferiad Oedi ac Adolygu)</u>**

Yn ystod mis Tachwedd, 2018, gwahoddwyd CIPFA Cymru gan yr Aelodau i ddychwelyd i gynorthwyo'r Panel wrth asesu cynnydd a blaenoriaethau'r rhaglen waith ar gyfer 2019/20. Mae CIPFA wedi canmol yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod tuag at sgriwtini ariannol:

- "Mae'r ymagwedd tuag at reoli a chynnal busnes y Panel wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi newid o fod yn ymagwedd a oedd yn cael ei harwain gan swyddogion i bob pwrpas i un gall Aelodau a'r cadeirydd ei rheoli'n well ac yn fwy effeithiol
- Mae'r papurau a gynhyrchir yn gwella oherwydd bod mwy o eglurder gan swyddogion ynghylch yr hyn sydd ei angen i wella ansawdd y drafodaeth a'r her gan Aelodau
- Mae'r modd y caiff y Panel ei gadeirio wedi gwella gyda chadeirydd enwebedig sy'n cymryd perchnogaeth o'r cyfarfod ac yn rheoli amseriad y cwestiynu a'r drafodaeth yn fwy effeithiol
- Mae'r cwestiynau a ofynnir gan Aelodau wedi gwella gyda mwy o ddealltwriaeth o'r materion ac, o'r oherwydd, o berthnasedd y pwynt a'r her sy'n cael ei chyflwyno. Mae'n amlwg hefyd bod cynnydd yn ansawdd cyfraniadau'r Aelodau, gyda'r cyfan ohonynt o bryd i'w gilydd yn gofyn cwestiynau
- Yn anorfod, bydd newidiadau yng nghyfansoddiad y Panel a dyna fu'r achos yn 2018. Fe wnaeth Aelodau newydd gyfrannu a chwestiynu ac mae hynny'n beth positif..."

2.3 **Hunanwerthusiad**

**Cyd-destun:**

Ers yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i gyflwyno dull mwy trylwyr o atebolrwydd sy'n cael ei arwain gan yr aelodau, trwy strwythur sgriwtini diwygiedig. Fel rhan o'r strwythur hwn, mae Aelodau'n parhau i fuddsoddi mewn sgriwtini ac i gyfrannu'n frwd ato trwy waith ein 3 phanel sefydlog.

**Beth sy'n gyrru hunanwerthuso yn lleol?**
Rydym wedi blaenoriaethu rhoi cyfleoedd bob hyn a hyn yn y calendr i'r Aelodau gael hunanwerthuso, er mwyn iddynt allu adolygu, myfyrio a dysgu. Amcanion yr ymarferiad hunanwerthuso oedd:

i. Cymryd stoc
ii. Adolygu, gwerthuso a myfyrio
iii. Sefydlu sylfaen ar gyfer y cyfnod nesaf
iv. Cadarnhau perchnogaeth yr Aelodau.

Dyma'r hunanwerthusiad cyntaf i'r Panel Sgriwtini Cyllid ei gwblhau. Pwrpas yr hunanwerthusiad hwn oedd darparu fframwaith i Aelodau'r Panel adolygu 4 agwedd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Beth sy'n gweithio'n dda | Adnabod pa effaith a gafodd y Panel | Meysydd i'w gwella | Anghenion datblygu Aelodau |

## 3. Y Dasg

3.1 Yn ystod cyfarfod diweddar o'r Panel Sgriwtini Cyllid[1], gwahoddwyd yr Aelodau Etholedig i raddio statws CAG cyfraniad y Panel i'r daith wella gan ddefnyddio'r fframwaith canlynol:

- **Anfoddhaol** – meysydd pwysig ar gyfer gwella yn gorbwyso'r cryfderau
- **Digonol** – cryfderau yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella
- **Da** – nifer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant sylweddol
- **Rhagorol** – nifer o gryfderau, yn cynnwys enghreifftiau penodol o arferion sy'n arwain yn y sector

## 4. Cwestiynau Hunanarfarnu

4.1 Defnyddiodd yr Aelodau Etholedig gyfres o gwestiynau fel fframwaith i'w galluogi i werthuso cyfraniad y Panel at drefniadau llywodraethiant y Cyngor:

C1. Yn nhermau gwaith y Panel, beth oedd yr uchafbwyntiau i chi fel aelodau unigol o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

C2. Yn eich tyb chi, pa effaith gafodd y Panel wrth graffu cyllidebau ac wrth herio a dwyn gwasanaethau i gyfrif?

C3. Oes yna unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwella neu eu cyflawni'n fwy effeithiol wrth symud ymlaen?

C4. Pa effaith mae bod yn Aelod o'r Panel wedi'i gael arnoch fel unigolyn?

C5. Pa anghenion datblygu sydd gennych er mwyn eich cefnogi chi yn eich rôl?

C6. Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad ac / neu effaith gwaith y Panel ar y broses graffu gyfan a'r prosesau gwneud penderfyniadau?

## 5. Casgliadau

5.1 **Sylwadau Aelodau Etholedig ar y Panel Sgriwtini Cyllid**
Fe wnaeth 80%[2] o Aelodau Etholedig y Panel gymryd rhan yn yr hunan werthusiad. Isod mae crynodeb o'r hyn roedd ganddynt i'w ddweud:

**C1. Beth oedd yr uchafbwyntiau i chi fel aelodau unigol o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Mae dyfnder ein dealltwriaeth o gymhlethdodau gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i wella

[1] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 6 Mehefin, 2019
[2] 4 o'r 5 aelod o'r Panel. Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchu'r ffaith na chafodd yr aelod ychwanegol yn cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ei enwebu tan 13 Mehefin, 2019

Rhoi ffocws clir ar y gwariant a gwneud hynny y medrwn fel Panel i gael effaith ar y canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

Mae ein gwybodaeth ac hyder wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf sydd wedi arwain at gwestiynu mwy uniongyrchol ac mwy o ddyfnder i'n trafodaethau

Mae sesiynau datblygu ar ddechrau pob cyfarfod yn ffordd effeithiol o godi ymwybyddiaeth a'n haddysgu ni fel Aelodau am wasanaethau. Mae hyn yn gyfle i ymholi a gofyn cwestiynau a dylai'r rhain barhau

Mae lefel a dyfnder ein cwestiynu wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n adlewyrchu dealltwriaeth gwell o lawer o gyllid llywodraeth leol. Rydym bellach yn gofyn cwestiynau mwy treiddgar

**C2. Pa effaith gafodd y Panel wrth graffu cyllidebau ac wrth herio a dwyn gwasanaethau i gyfrif?**

I mi, yr effaith fwyaf a gafodd y Panel yw'r arweinyddiaeth a'r gefnogaeth mae'r Aelodau wedi eu harddangos yn eu hymdrechion i ddwyn gwasanaethau i gyfrif

Mae ein gallu i ofyn cwestiynau treiddgar nawr yn dechrau ychwanegu gwerth at drefniadau llywodraethiant yr Awdurdod. Mae'r gwaith a wnaethpwyd i herio'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu mewn ymateb i bwysau sylweddol ar y gyllideb wedi sbarduno rhai mesurau lliniaru cadarnhaol

Mae ganddom lawer gwell dealltwriaeth o sut mae'r Cyngor yn cael ei gyllido ond mae angen nawr i ni symud ymlaen ac arwain trafodaethau cyllidol efo'n cyd Aelodau

**C3. Oes yna unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwella neu eu cyflawni'n fwy effeithiol wrth symud ymlaen?**

Dwi'n credu y byddai ceisio trefnu dyddiadau o flaen llaw ar gyfer cyfarfodydd y Panel yn cryfhau ymhellach ein trefniadau llywodraethiant gan hefyd sicrhau'r amodau ar gyfer presenoldeb Aelodau

Rwy'n meddwl weithiau fod gennym ormod o eitemau ar y rhaglen. Dylem ganiatáu amser ar gyfer sesiwn ddatblygu ar ddechrau pob cyfarfod er mwyn ein galluogi i ddatblygu ein dealltwriaeth ymhellach

Mi fyddai parhau i weithio gyda CIPFA o fudd i ni, fel ffynhonnell werthfawr o ran arweiniad a chyngor proffesiynol, allanol

**C4. Pa effaith mae bod yn Aelod o'r Panel wedi'i gael arnoch?**

Mae fy sylfaen wybodaeth wedi cynyddu mewn perthynas â'r broses gyllidebol a'r pwysau ariannol y mae gwahanol adrannau yn eu hwynebu

Fel aelod o'r Panel, mae fy sgiliau craffu ariannol wedi datblygu fel fy mod yn gallu dadansoddi a chwestiynu'r wybodaeth a gyflwynir yn well

**C5. Pa anghenion datblygu sydd ganddoch er mwyn eich cefnogi yn eu rôl?**

Byddai diweddariad ar egwyddorion craffu cyllid effeithiol o fudd, gan ein bod yn croesawu aelodau newydd i'r Panel

Golwg fanwl ar y fecaneg cyllid llywodraeth leol, gan gynnwys rôl statudol y Swyddog A151. Mi fydd hyn yn cefnogi aelodau presennol a newydd y Panel

Dylem chwilio am ddeunydd hyfforddi allanol fel canllaw i lywio ein rhaglen hyfforddiant mewnol ee WLGA, CIPFA

Byddai'n syniad da i'r Panel gytuno ar restr o bynciau i'w cynnwys yn sesiynau datblygu'r Panel. Mae'r sesiynau datblygu yma'n rhan bwysig o waith y Panel

**C6. Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad ac / neu effaith gwaith y Panel ar brosesau gwneud penderfyniadau?**

Rydym yn cael budd sylweddol o fod yn aelodau'r Panel

Heb amheuaeth, mae lefel ein dealltwriaeth o gymhlethdodau gwasanaethau'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf

Ein nod yw gweithio fel "ffrind beirniadol"

Fel Panel, mae angen i ni barhau i ddatblygu ac aeddfedu e.e. trwy rannu gwybodaeth gyda Chynghorau eraill

**Rydym bellach yn gallu gofyn cwestiynau treiddgar a dwyn gwasanaethau i gyfrif, gan sicrhau fod mesurau lliniaru ar waith ac yn cael eu gweithredu**

5.2 **Canlyniadau**

Gallwn dystioli rhai canlyniadau yn yr Awdurdod Lleol oherwydd ein gwaith craffu cyllidol:

- Tîm o Aelodau sydd wedi datblygu lefel uchel o wybodaeth am gymhlethdodau cyllid llywodraeth leol a lefel o arbenigedd yn y maes hwn
- Model o weithio yn canolbwyntio ar grŵp llai, sy'n annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Creu amodau sy'n galluogi Sgriwtini effeithiol e.e. bu gwelliant sylweddol yn lefel a dyfnder y cwestiynu gan y Panel
- Gweithgaredd sgriwtini sydd wedi ei gynllunio'n dda, yn effeithlon ac yn wrthrychol, ac yn seiliedig ar dystiolaeth o amryw o adnoddau
- Gwell dealltwriaeth gan yr Aelodau Etholedig o'r cymhlethdodau a'r risgiau yng nghwasanaethau'r Cyngor er mwyn gallu craffu, dwyn i gyfrif ac adnabod blaenoriaethau'n effeithiol wrth symud ymlaen.

I grynhoi, rydym yn gallu tystioli ymagwedd fwy systematig i graffu cyllidol sydd hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau; craffu ar sail tystiolaeth sy'n gwneud cyfraniad cadarn at reolaeth ariannol a threfniadau llywodraethiant yn y Cyngor.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r hunanwerthusiad hwn, penderfynodd yr Aelodau fod statws CAG **DA** (Melyn) yn rhoi'r adlewyrchiad gorau o rôl a chyfraniad y Panel at drefniadau llywodraethiant yr Awdurdod.

# 6. Camau Nesaf

6.1 **Blaenoriaethau am y cyfnod nesaf**

Mae rhai materion wedi codi o'r hunanwerthusiad y mae angen rhoi sylw iddynt dros y cyfnod nesaf. Bydd y materion canlynol felly'n cael eu blaenoriaethu ar flaen raglen waith y Panel:

**Meysydd i'w Datblygu**

| THEMA | SUT |
|---|---|
| **Gwybodaeth Monitro Cyllidebau** | Addasu ffurf a chynnwys yr adroddiadau monitro cyllidebau refeniw i'r Panel gyda'r amcan o roi pwyslais ar gymharu patrymau gwariant efo'r flwyddyn flaenorol; adnabod pa feysydd sydd wedi gwaethygu o ran eu perfformiad ariannol; adnabod patrymau / tueddiadau dros amser |
| **Comisiynu Gwybodaeth gan Wasanaethau** | Creu templed safonol i'w ddefnyddio wrth gomisiynu gwybodaeth gan wasanaethau unigol |
| **Aliniad efo blaenoriaethau strategol y Cyngor** | Sicrhau aliniad rhwng ffrydiau gwaith y Panel a'r blaenoriaethau corfforaethol drwy sgyrsiau 1:1 rhwng Cadeirydd y Panel a'r Arweinydd |
| **Trefniadau Llywodraethiant** | Diwygio arddull yr adroddiadau cynnydd i'r rhiant bwyllgor a chyflwyno trefn o adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Gwaith ar faterion sydd wedi'u craffu gan y Panel (gan sicrhau cydymffurfiaeth efo'r Cyfansoddiad) |
| **Anghenion Datblygu yr Aelodau** | 1. Cynnal gweithdy craffu cyllidol ar gyfer aelodau'r Panel. 2 ran:<br>• gwybodaeth dechnegol ynghylch cyllid llywodraeth leol – cynnwys rôl y Swyddog A151<br>• egwyddorion craffu cyllidol<br>2. Cytuno rhestr o bynciau ar gyfer sesiynau datblygu'r Panel |
| **Mesur Canlyniadau ac Effaith Sgriwtini** | Aelodau Etholedig y Panel i gynnal hunanwerthusiad pellach o fewn y 12 mis nesaf |

6.2 **Adolygu Paneli Sgriwtini**

Bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio rhan o adolygiad ehangach gan y Cyngor o waith yr holl baneli sgriwtini[3] er mwyn sicrhau:

i. Rhaglenni gwaith clir a chadarn
ii. Cyflymder a ffocws priodol
iii. Bod meysydd blaenoriaeth yn unol â blaenoriaethau corfforaethol.

Anwen Davies
Rheolwr Sgriwtini
[Ar ran Aelodau Etholedig ar y Panel Sgriwtini Cyllid]

[3] Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion; Panel Sgriwtini Cyllid; Panel Gwella Gwasanaethau Plant

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **13 Ionawr, 2020** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2019/20 a'r tu draw i hynny** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2019/20

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| |

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Bellach, mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

---

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Blwyddyn Ddinesig 2019/20**: cafodd raglen waith 2019/20 y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ei chadarnhau gan y Pwyllgor ym mis Mehefin, 2019[3].

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2019/20 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf (21 Tachwedd, 2019).

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2019/20: Chwarter 4. |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 2019

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → IONAWR – EBRILL, 2020**
**[Fersiwn dyddiedig 06/01/20]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Ionawr, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 23/10/19 → 13/01/20)** | **Ionawr, 2020 (21/01/20)** |
| Cynigion cychwynnol cyllideb 2020/21 | Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2019) |
| Cynllun Ymgynghori ar gyllideb 2020/21 | Adroddiad Blynyddol GwE: 2018/19 |
| Panel Sgriwtini Cyllid: Adroddiad Cynnydd | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: Adroddiad Cynnydd |
| | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Cytundeb Gwastraff |
| **Ionawr, 2020 (14/01/20)** | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni | |
| | |
| **Chwefror, 2020 (newid dyddiad cyfarfod 03/02/20 → 27/02/20)** | **Chwefror, 2020 (04/02/20)** |
| Cynigion drafft terfynol cyllideb 2020/21 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol: 2020/24 |
| Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Cyllid | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Adolygiad Paneli Craffu | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| | Adolygiad Paneli Craffu |
| | |
| | **Chwefror, 2020 (25/02/20)** |
| | Medrwn Môn |
| | Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | |
| **Mawrth, 2020 (09/03/20)** | **Mawrth, 2020 (10/03/20)** |
| Monitro Perfformiad Ch3: 2019/20 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | Cydweithio efo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol: adroddiad cynnydd | |
| | |
| **Ebrill, 2020 (06/04/20)** | **Ebrill, 2020 (07/04/20)** |
| | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol – Gwynedd a Môn |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion: adroddiad cynnydd |

**Eitemau i'w rhaglennu:**
Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Amlwch / Llangefni / Seiriol
Defnydd yr Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth Fewnol y Cyngor
Polisi Codi Tâl Galw Gofal: Tenantiaid Tai Cyngor